"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1882. [RHIF 10.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Y Gynnadledd Genedlaethol yn Lerpwl	217
Misoedd y Flwyddyn a'u Heffeithiau	228
Y Presenol a'r Dyfodol	229
Charles Robert Darwin	230
Pregethu Lleygol	235
Manion a Hanesion	238
Marwgofion	239
Barddoniaeth	240

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] MEHEFIN, 1882. [Rhif 10.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

Y GYNNADLEDD GENEDLAETHOL YN LERPWL

(Ebrill 18, 19 a'r 20, 1882).

Ond odid na fydd llawer o ddarllenwyr yr Ymofynydd yn awyddus iawn i dderbyn y rhifyn am y mis presenol mor gynted ag y byddo modd, am y rheswm eu bod, gan mwyaf o bosibl, yn dysgwyl hanes gweddol gyflawn o'r cyfarfodydd mawrion a llwyddiannus a gynnaliwyd gan ein henwad ni, a Christnogion Rhydd ereill, yn Liverpool, ar ddyddiau Mawrth, Mercher a Iau, y 18fed, 19eg a'r 20fed o Ebrill, diweddaf. Yr ydym ni wedi cael mwynhau y fraint o fynychu cyrddau lluosog o bryd i bryd yn Nghymru a Lloegr yn y gorphenol; ond rhaid yw dweyd mai dyma y cwrdd mwyaf lluosog o ddigon ydym wedi gael y fraint o'i fynychu yn ein plith. Dywed rhai mai hwn oedd y cyfarfod mwyaf lluosog ac effeithiol er daioni o un cyfarfod sydd wedi cael ei gynnal yn flaenorol gan yr Undodiaid mewn un cwr o'r byd; ond er i fod nifer y gwyddfodolion yn annghyffredin o luosog, gall wahanol farnau ffynu yn ein plith gyda golwg ar yr ail osodlad, sef mai ef oedd y *mwyaf* effeithiol er daioni. Ond gan nad beth am hyny, cawsom gyrddau rhagorol dda—cyrddau gobeithiwn fydd i adael argraff dda a dymunol ar eu hol, trwy fod yr hyn a lefarodd y gweinidogion, ac ereill a gymmerasant ran ynddynt, yn cael ei ddwyn i weithrediad. Pe cymmerai hyn le, i'r graddau y dymunem ac y carem ni yn fawr, nid oes yr un amheuaeth ar ein meddwl nag y byddai iddynt i ateb dybenion gwir lesiol, trwy fod mwy o fywyd gwir Gristnogol yn ffynu yn ein plith, ac yn dangos ei bresenoldeb yn ein calonau, ein cymmeriadau a'n cynnydd yn mhob rhinwedd a daioni.

Golwg swynol a hardd, ie, ac adfywiol i'n calon ni oedd gweled, nos Fawrth, dros wyth cant o'n gweinidogion a'n gwyr lleyg yn am-

gylchynu Bwrdd yr Arglwydd Iesu Grist, i gynnal cof am dano mewn cydsyniad â'i gais,—"*Gwnewch hyn er cof am danaf.*" Cawsom ni ein meddiannu gan deimladau hapus iawn pan yn clywed yr Hybarch dad William Gaskell, M.A., Cross Street, Manchester, yn siarad mor bwrpasol i'r amgylchiad, a phan yn cydgyfranogi gyda nifer mor luosog o frodyr a chwiorydd o'r wledd arwyddocaol hon.

Dywedir fod dros ddwy fil o bobl yn gwrando yn ddiweddarach yn yr hwyr ar y Parchedig Charles Beard, B.A., un o'n pregethwyr mwyaf dysgedig, galluog a phoblogaidd yn mhlith ein brodyr Seisnig, yn pregethu, yn yr Hall fwyaf (Philharmonic Hall) ond un yn Liverpool, pregeth alluog ac addasedig i'r amgylchiad dyddorol yma. Rhoddwyd gwrandawiad astud i'r cyfryw. Dechreuwyd y cwrdd trwy ganu mawl, &c., gan weinidog perthynol i un o'r enwadau union gred, a gwnaeth hyny yn foddhaol a chyda difrifoldeb mawr; ond, er hyny, mwy boddhaol gan yr ysgrifenydd fuasai clywed un o'n gweinidogion ni ein *hunain* yn cyflawnu hyny o orchwyl. Diau y bydd i'r bregeth gael ei chyhoeddi yn lled fuan, gyda'r areithiau da a gwir alluog ereill a draddodwyd yn y cyrddau o'u dechreu i'w diwedd, mewn *pamphlet*. Yn wir, yr ydym wedi cael addewid am hyny o beth.

Gormod o waith o lawer, yn ol ein barn ni, oedd wedi ei dori allan ar gyfer dydd Mercher,—dim llai nâ phedwar o gyrddau, sef y Cwrdd Gweddi am 9 o'r gloch y boreu, yn Renshaw Street, yn nghapel Mr. Beard, a thri chwrdd wedi hyny, a phob un o honynt yn para dros dair awr yr un. Er cystal oedd y cyfryw, er mor hyawdl oedd y llefarwyr yn llefaru, er mor swynol oedd y *music*, ac er mor brydferth a chyfleus y capel oeddynt yn cael eu cynnal ynddo, gan mwyaf, etto rhaid cyfaddef a dweyd i ni deimlo, a rhoddi datganiad hefyd i'r teimlad hwnw, yn y geiriau yma—*y cnawd sydd wan er fod yr yspryd yn barod.* A thrachefn,—*Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?* Hwn oedd y *diwrnod mawr*, fel y clywais ryw frawd yn y gymmydogaeth oeddym ni yn eistedd ynddi yn y cwrdd yn dywedyd wrth frawd arall.

Gan ein bod wedi cael diwrnod o galedwaith dydd Mercher, ofnem ni na fuasai ond cymharol ychydig yn dyfod yn nghyd i'r cyfarfod pwysig olaf boreu dydd Iau; ond cawsom ein siomi yn yr iawn gyfeiriad, oblegyd yr oedd y capel eang a phrydferth yn orlawn, a phawb yn rhoddi gwrandawiad astud a difrifol i'r llawer pethau rhagorol dda a siaradwyd arnynt, gan gyfeillion ag oedd yn amlwg i'w weled a'i deimlo eu bod hwy, yn eu plith Mr. C. H. James, un o'r Aelodau Seneddol dros Merthyr, Faynor ac Aberdar, yn rhai sydd yn teimlo dyddordeb yn ein hachos, ac yn rhai sydd yn foddlon, nid yn unig i siarad am dano, ond hefyd i gyfranu o'u heiddo bydol a'u dylanwad moesol i'w gynnal yn y blaen. Nid curo yr awyr a siarad er mwyn siarad oedd yr amcan mewn golwg yn y cyfarfodydd yma, ond trafod yn onest a sobr y pynciau hyny sydd yn hawlio ein sylw dwys a'n hystyriaeth ddifrifol ni fel enwad o Gristnogion rhydd, a gosod ar droed ac mewn gweithrediad fesurau allant fod o fendith mawr i ni oll, yn weinidogion ac ereill, yn ol llaw. Cawsom ein ffafrio â thywydd hafaidd dymunol iawn. Ar y cyfan, gan hyny, gwelwn fod yr

holl gyrddau wedi troi allan yn *perfect success*. Dangoswyd caredigrwydd anarferol gan bobl y lle i ddyeithriaid. Yr oedd eu trefniadau ar gyfer y cyfryw yn wir y fath na allesid braidd ddymuno eu gwell.

Yr oedd yn bresenol y rhan fwyaf o'n gweinidogion Cymreig.* Drwg genym oblegyd absenoldeb y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid, yr hwn orfu aros gartref ar yr amgylchiad sobr y cyfeirir ato yn yr YMOFYNYDD diweddaf, sef marwolaeth perthynas agos iddo, y gwir garedig Thomas Evans, Porth Hotel, Llandyssul.

Bellach, rhaid yw i ni roddi lle i un arall i draethu yn helaethach ar y cyfarfodydd uchod.

E. W. L.

Y GYNNADLEDD YN LERPWL.†

WRTH gynnyg rhyw fath o adroddiad o'r cyfarfod uchod, mae anhawsder yn codi ar y dechreu i gael enw syml i ddynodi y gynnadledd. Yn y cylch-lythyr a anfonwyd oddiamgylch yn gosod allan ei hamcanion a'i threfniadau, fe gawn restr hirfaith o ansoddeiriau yn gyssylltiedig â'r gair "Cynnadledd," i geisio dangos cynnadledd pa ddosparth neu ddosparthiadau o Gristionogion ydoedd hi i fod; ac i ddarllenydd annghyfarwydd fe fyddai yr amrywiol enwau yma yn awgrymu yn ddiamheu elfenau annghyson a gwrthwynebol fel yn cyfansoddi y gynnadledd. Ond os galwn hi yn "Gynnadledd Undodaidd," fe fydd hyny yn gosod allan yn gymhwys beth drodd hi allan yn ymarferol, os nad yw yn cynnwys y cwbl, feallai, a fwriedid iddi fod gan rai o'i chychwynwyr. Cynnadledd Undodaidd, cyfansoddedig braidd yn ddieithriad o Undodiaid, wedi dyfod at eu gilydd o bob cwr o'r deyrn-Gyfunol oedd y gynnadledd a agorwyd yn Lerpwl nos Fawrth, Ebrill 18fed, 1882. Dechreuwyd ar waith pwysig y gwahanol gyfarfodydd mewn dull ag sydd yn cymmeradwyo ei hun i bob Cristion. Cyn ymafael yn ngwaith Cristionogol y Gynnadledd ceisiwyd fyned i gymmundeb agos â'r hwn sydd wedi bod trwy yr oesau yn ysprydoliaeth pob ymdrech ddaionus dros achos y gwirionedd—Iesu Grist ei hun. Golygfa na annghofir byth genym oedd gweled rhyw chwech neu saith

---

* Y gweinidogion Cymreig gwyddfodol oeddynt Lloyd, Cwmbach; Rees, Rhydygwin; Jones, Aberdar; Jones, Llanbedr; Evans, Gellionen; James, Llandyssul: Davies, Cefn; Williams, Merthyr; Davies, Alltyplaca. Cymry ereill yn bresenol oeddynt D. L. Evans, gynt o Gaerfyrddin; Lloyd, Knutsford; T. Ll. Jones, Hale; W. Davies a W. J. Phillips, o Goleg Owen, Manchester; Phillips, Newton-Nottage, a Davies, Cellan. Da genym ddeall fod treuliau amryw o'n gweinidogion wedi eu talu gan eu cynnulleidfaoedd. Mae Williams, Merthyr wedi pregethu a chyhoeddi ei argraffiadau o'r cyfarfod bythgofus hwn. Gwyddom fod ereill wedi pregethu ond heb gael cymhelliad digonol i fyned i'r wasg.—GOL.

† Cydnabydda'r ysgrifenydd ei rwymedigaeth i'r "*Inquirer*," y "*Christian Life*," ac yn neillduol i'r "*Christian World*" am ddefnyddiau yr adroddiad hwn.

cant o bersonau yn eistedd i lawr yn ostyngedig i gyfranogi o Swper yr Arglwydd, ac i adnewyddu eu bywyd ysprydol wrth y ffynnon gyfoethog yma o gariad. Gweinyddwyd yr ordinhad yn nghapel Hope St., am chwech o'r gloch. Gweinyddwyd yr ordinhad gan yr Hybarch W. Gaskell, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parchedigion J. C. Street, C. J. Perry, J. Wright, a G. St. Clair. *Hope St. Church*, yw y capel adeiladwyd ar gyfer Dr. Martineau pan oedd yn weinidog yn Liverpool cyn ei symmudiad i Lundain i fod yn athraw yn Manchester New College yn y flwyddyn 1853. Am hanner awr wedi saith cynnaliwyd gwasanaeth crefyddol yn y Philharmonic Hall, adeilad prydferth ac eang, a chyfleus ar gyfer dybenion y gynnadledd gan nad oes ond lled heol rhyngddo a'r capel rhag-grybwylledig. Tybir fod dros ddwy fil o bersonau yn bresenol. Cymmerwyd y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth gan y Parch. Joseph Wood, gweinidog Annibynol o Leicester. Darllenodd Salm cxlvii. ac Ephesiaid iv. a gweddiodd yn hynod afaelgar ac effeithiol. Y pregethwr oedd y Parch. Charles Beard, B.A., gweinidog capel Renshaw Street, Lerpwl. Mae Mr. Beard yn cael ei restru yn y dosparth blaenaf o weinidogion yr Undodiaid fel ysgolhaig, meddyliwr, ac areithiwr, ac yr oedd y bregeth a draddododd ar yr achlysur presenol yn deilwng o'i gymmeriad a'i enwogrwydd. Ei bwnc oedd "Bywyd plant Duw," a dewisodd fel ei destyn Ioan i. 9, 11, 12. Sylwai fod y bywyd yma yn cael ei feithrin trwy gymmundeb â Duw ac yn bodoli o dan ffurfiau amrywiol. Yr oedd duwinyddiaeth gymhariaethol, meddai ef, yn wyddor newydd a swynol. Fe allasai ymddangos i rai yn beryglus, ond pa fwyaf y myfyriem ni arni, y mwyaf y dangosai y gwir oleuni sydd yn goleuo pob dyn. Yr oedd yn un o bethau rhyfeddaf hanes ein bod ni, plant y genedl gryfaf yn y byd, wedi myned at yr Iuddew i ddysgu dirgelwch y ffydd; wedi taflu ymaith gwrtaith Groeg a gogoniant Rhufain er mwyn mab y saer o Nazareth. Mae yn ddiamheu ffyrdd ereill at Dduw; ond dyma'r agosaf, yr anwylaf, y mwyaf cynnefin i ni—ffordd yr Iesu. Yr ydym gartref gydag ef, ac ni lefarodd neb wrth ein calonau ni fel y dyn hwn. Mae y bywyd Cristionogol yn un yn gystal ag yn amlochrog; mae y saint i gyd yn un frawdoliaeth, ac mae plant Duw yn siarad yr un iaith. Ond tra mae hyn yn wir mae gan bob duwioldeb ei nodwedd leol ei hun. Mae sant Eglwys Rhufain yn ymneillduo oddiwrth demtasiynau a dyledswyddau cyffredin bywyd, ond nis gall neb amheu nad yw e'n gwrteithio yno dduwioldeb sydd yn gryf ac yn fuddugoliaethus: yn gorchfygu gwendid y cnawd, ac yn sathru ofn o dan draed pan mae dyledswydd anhawdd i gael ei chyflawnu; ac wedi'n, dyna'r cynllun Efengylaidd o dduwioldeb; pa faint o fywyd ac o dân santaidd mae hwnw wedi greu; sut mae wedi dylanwadu ar eneidiau oeddent yn ddall i bob goleuni arall. Yr oedd gan bob un o'r cynlluniau yma ei saint dirifedi, ond hawliai y pregethwr fod plant gwirioneddol Duw i gael eu hadnabod, nid wrth yr enw a ddygent ond wrth y seren ar eu talcenau, a'r rhinwedd oedd yn myned allan o honynt pan yn aros yn mhlith dynion. Gyda golwg ar ba faint o gred fyddai yn eisieu er mwyn sicrhau bywyd plant Duw ni feiddiai

ddweyd. Bod yn ffyddlawn i'r natur uwch sydd mewn dyn, plygu mewn parch gostyngedig o flaen yr Anfeidrol a'r Tragywyddol oddiamgylch i ni a thufewn i ni sydd yn cyfansoddi yr un gwir warogaeth i'r goleuni sydd yn dyfod i'r byd. Mae y bywyd hwn yn *beth* ynddo ei hun, ac nis gall dim fod yn uwch nag ef, oblegyd mae'n fywyd gyda Duw, yn Nuw ac er mwyn Duw. Mae yn rhywbeth mwy nâ bywyd moesol yr hwn a benderfynir ar sylfeini daearol, oblegyd mae ei safon yn gorphwys ar ewyllys santeiddiach nâ'r eiddo ei hun, ac nid yw yn colli golwg ar y byd anweledig, ac nid yw'r bywyd hwn chwaith wedi ei rwymo wrth wyddor, athroniaeth na duwinyddiaeth, oblegyd fe all crefydd sydd yn ei feithrin fodoli ar wahan oddiwrth y rhai hyn. Yr hyn a ofynir oddiwrth athrawon crefydd yw porthi eneidiau sydd mewn newyn. Terfynodd y pregethwr trwy anog ei wrandawyr i fod yn dystion ffyddlon dros Dduw, ac i ymddiried mwy yn ngwersi bywyd ymarferol nag yn y geiriau a glywent o'r pwlpud.

Boreu dydd Mercher am naw cynnaliwyd gwasanaeth defosiynol, neu yr hyn ellid alw yn fyr yn gwrdd gweddi, yn nghapel Renshaw Street. Yr oedd cynnulleidfa fawr wedi dyfod at eu gilydd, ac yn ddiamheu teimlad y rhan fwyaf wrth fyned allan oedd "Mai da i ni oedd bod yma." Cafwyd tair o weddiau a thair o anerchiadau gan y gweinidogion canlynol:—W. Carey Walters, Kidderminster; T. W. Freckelton, Llundain; A. N. Blatchford, Bristol, a J. P. Hopps, Leicester.

Ailgyfarfyddwyd am ddeg o'r gloch yn Hope Street Church i ddechreu ar wir waith y gynnadledd. Yr oedd y capel eang yn annghysurus o lawn, ac o'r man yr oeddem ni yn eistedd, yr oeddem o dan gryn anfantais i glywed rhai o'r siaradwyr. Rhoddwyd emyn allan i ganu a gweddiwyd gan y Parch. Alfred Payne o Newcastle; yna cymmerodd Mr. James Heywood y gadair ac a eglurodd yr amgylchiadau o dan y rhai y cafodd y gynnadledd ei galw. Cyfeiriodd hefyd at y cynnydd oedd Undodiaeth wedi wneyd, yn neillduol yn Lancashire, a'r cynnulleidfaoedd newyddion oeddent wedi codi i fyny yn nghymmydogaeth Manchester a Liverpool, a therfynodd trwy alw ar Mr. Herbert New o Evesham i ddarllen ei bapyr ar "Ddadblygiad y Bywyd Crefyddol yn ein Heglwysi." Nis gall Yr Ymofynydd hebgor gofod i'r gwahanol bapyrau a ddarllenwyd yn ystod y gynnadledd i ymddangos yn llawn. Amcanwn yn unig gyda chymhorth yr adroddiadau sydd wedi ymddangos yn y papyrau Saesneg i roddi eu sylwedd. Cymmerodd Mr. New yn ganiataol fod sylfaen y bywyd crefyddol yn yr enaid, a chylch ei weithrediad yn mherthynas yr enaid â Duw, a'n cydaddolwyr, ac â'n brodyr tufewn a thuallan y cyssegr. Gostyngeiddrwydd ac edifeirwch, cariad a pharch, hiraeth ysprydol, penderfyniad moesol, hunan-ymroddiad, ffydd, gobaith, cariad, yw yr elfenau a ffrwythau dadblygiad y bywyd crefyddol yn ymarferol tufewn i gylch ein bywyd cyffredin cymdeithasol ac y dylai gadw ei le a chael ei feithrin yno. Gosodiad sylfaenol y papyr oedd fod dadblygiad y bywyd crefyddol yn ymarferol tufewn i gylch ein bywyd cyffredin cymdeithasol, ac y dylai gadw ei le a chael ei feithrin yno. Mae y safle Undodaidd

yn rhy fynych wedi tueddu i attal cynnydd y bywyd crefyddol o herwydd ein bod yn barhaus yn rhwymedig i gymmeryd rhan flaenllaw mewn dadleuon athrawiaethol. Cwestiwn a ofynir yn aml yw, Pa rai yw y rhwystrau sydd yn cadw llawer o bersonau rhag uno â ni? Mewn ateb gallwn ddweyd fod yr uwchafiaeth feddyliol a honir genym ambell waith yn faen tramgwydd i lawer. Yr ydym yn hawlio gwybodaeth ddyfnach, rhyddid oddiwrth ragfarn, ac wrth hyny yr ydym yn tori'r gorsen ysig, ac yn diffodd y llin yn mygu. Hefyd mae ein difaterwch crefyddol yn cadw llawer oddiwrthym. Wrth geisio efelychu yr Eglwys Sefydledig yn ffurf adeiladaeth ein capeli ac yn ei defodaeth, yr ydym wedi colli llawer. Yn lle hyny dylem geisio dyfod i gydgordiad llwyrach â'n brodyr Ymneillduol. Rhaid i ni roddi mwy o le i weddi yn ein gwaith, a'i wneyd yn rhan fwy pwysig o lawer yn ein haddoliad. Mae eisieu mwy o deimlad addoli, a pharch at bethau cyssegredig a dwyfol. Mae cyfleusdra am well sefyllfa o bethau yn y cyfnewidiadau diweddar yn ein syniadau am y bywyd dyfodol. Yr ydym wedi gadael uffern dragywyddol ar ol, ac ni chredwn fod drwg i barhau byth; ond os na ddyg ein syniadau newydd ni yn agosach at Dduw a'n gwneyd yn fwy ffyddlon yn ei wasanaeth, ni fyddant o gwbl yn newyddion da i ni. Ac wrth golli yr hen ddaliadau am y bywyd dyfodol, mae drwg gwaeth yn ein goddiweddyd. Mae anffyddiaeth yn ei gwahanol ffurfiau yn bygwth dinystr y bywyd crefyddol yn gyfangwbl; ac nid oes un ddyfais newydd a'n golluoga i gyfarfod â'r sefyllfa yma o bethau; dim ond dychweliad at yr hen ffordd—at y bywyd crefyddol yn Nuw a osodwyd allan yn ngeiriau y Psalmydd a'r proffwydi, ac a arddangoswyd yn ei berffeithrwydd yn mherson a bywyd Iesu Grist. Mae hwn mor sylweddol i ni heddyw ag oedd i bobl yr hen amser, ac i dadau ein Heglwysi, geiriau a choffadwriaeth y rhai ydym yn gadw yn gyssegredig. Darllenwyd papyr ar yr un pwnc gan y Parch. C. C. Coe o Bolton, yr hwn a sylwodd y dylem roddi i grefydd y lle pwysig a berthynai iddi yn yr amser gynt, fel teimlad sydd yn galw am y gwasanaeth uwchaf, ac yn cynnwys y canlyniadau mwyaf pwysig. Dylai plant gael eu dysgu i fyw mewn cymmundeb â Duw nid i haeru neu i wadu ryw osodiadau neillduol mewn perthynas iddo. Dylai y teimlad crefyddol hefyd gael ei ddwyn i'r cyssylltiad agosaf â'n natur foesol, fel y byddom yn gweled nad oes un ffordd well i ddangos ein cariad at Dduw nà thrwy wneyd ei ewyllys. Mae crefydd wedi dyoddef yn fynych, hefyd, o herwydd esgeulusdod o'r gobaith anfarwol. Mae bywyd tragywyddol wedi cael ei osod allan fel cymmundeb â Duw a Christ; mae hwna yn syniad ardderchog, ond mae bywyd tragywyddol yn cario gydag ef addewid am rywbeth rhagor nâ pherthynas amserol. Mae bywyd yn Nuw yn gymmundeb à Bod tragywyddol ac mae'r rhwymyn yn dragywyddol. Ambell waith edrychir ar grefydd fel *busnes* neillduol offeiriad; ac os bydd dyn yn talu at gyflog offeiriad duwiol, fod hyny yn gwbl gystal à bod yn dduwiol ei hunan. Pe byddai pob dyn yn credu fod crefydd yn fater o bwysigrwydd personol iddo ef ei hunan, fe fyddai gan fywyd ysprydol yr Eglwysi lawer gwell

cyfleusdra i fyned ar gynnydd. Mae yn angenrheidiol fod y dyn sydd yn argyhoeddedig o bwysigrwydd crefydd i bob bod personol, yn barod hefyd i gydnabod y ffaith ei bod yn bosibl i un enaid dynol i gynnorthwyo un arall ar y llwybr sydd yn myned yn mlaen ac i fyny. Yn ddiweddaf gwrthwynebodd y siaradwr y syniad, sydd yn gwneyd llawer i attal bywyd ysprydol yr Eglwysi, fod crefydd yn beth rhy ddifrifol i siarad am dano wrth ein cyd-ddynion. Mae y gwir Gristion yn dyfod i'r Eglwys er mwyn rhoddi a derbyn y cyffroad uwchaf posibl tuag at gwrteithio y bywyd crefyddol; ac fe fyddai dadblygiad y bywyd crefyddol yn ein Heglwysi yn beth hawdd, pe byddai pob gwasanaeth yn wir gymmundeb â Duw.

Wrth sylwi ar y papyrau a ddarllenwyd dywedodd Mr. T. Chatfield Clarke fod yr amser wedi dyfod i gael adfywiad o'r bywyd crefyddol yn yr Eglwysi rhydd. Yr oeddent yn rhy gyfyngdedig a chul ac fe fyddai yn llawer gwell pe byddent mewn cydymdeimlad llawnach â'r Eglwysi Efengylaidd. Dylent fyned allan yn mysg y bobl, eu dysgu mewn dull poblogaidd, a cheisio eu tynu atynt eu hunain. Siaradodd y Parch. W. H. Channing am brofiadau dedwydd ei fywyd fel gweinidog yn Lerpwl er ys blynyddau yn ol, ac am gyffredinolrwydd eu hegwyddorion. Yr oeddent yn gymmodwyr. Yr oedd eu tystiolaeth dros undeb cyffredinol—un Arglwydd, un ffydd. Meddyliai y Parch. H. S. Solly y gallent wneyd mwy pe byddai'r cynnulleidfaoedd yn uno yn fwy calonog â'u gweinidogion yn y gwaith. Yn hyn gallasent efelychu trefniant Eglwys Lloegr mewn lleoedd poblog, lle yr oedd gan bob aelod ei waith a'i gylch ei hun. Hefyd gwnai sefydliad cymdeithasau dirwestol, &c., eu cynnorthwyo i gael gafael yn y bobl. Dywedodd y Parch. D. Davis y dymunai roddi pwys neillduol ar yspryd defosiynol yn ein Heglwysi. Eisieu mwy o allu gweddi. Sylwai y Parch. J. Moden ar y pwysigrwydd o gadw yr hen frwdfrydedd crefyddol a ddygent gyda hwy oddiwrth yr Eglwysi uniawngred. Dywedodd Mr. I. M. Wade ei fod e'n hollol barod i gofleidio yr holl Eglwysi ereill, ond yn anffodus yr oeddent hwy yn cadw draw. Yr oedd gwahaniaethau duwinyddol yn eu rhwystro i ddyfod at eu gilydd, ac nid yw y rhai hyny yn ddibwys. Fe ddylem i gyd wybod ein safle, a pheidio ofni ein duwinyddiaeth. Gosoder y gair *Undodaidd* yn blaen ar wyneb ein capeli. Cododd y Parch. E. M. Geldart i amddiffyn defodaeth, ac adeiladwaith addurnedig rhai o'n capeli, ac awgrymodd fod ffurfioldeb yn bodoli hyd y nod yn mhlith y Crynwyr. Rhoddwyd croesaw calonog i'r Parch. Joseph Wood pan y cododd i siarad. Dywedodd fod rhai o sylwadau Mr. Wade wedi rhoddi poen iddo. Yr oeddent wedi cyfarfod, fel y tybiai ef, nid i gryfhau unrhyw enwad neillduol ond i gryfhau y bywyd crefyddol. Y ffordd oreu i wneyd hyny oedd trwy waith caled. Nid oedd crefydd yn Undodiaeth nac yn Drindodiaeth; yr oedd yn rhywbeth dyfnach; a'r olwg hyny oedd wedi ei dynu ef yn gystal ag ereill yno. Ffydd ac ymddiried oedd; cymdeithas gweithredoedd da; yr ymgais yn yspryd y meistr i gymmeryd rhan yn ei waith o gariad,—prynedigaeth dynion. Cyfeiriodd y Parch. R. A. Armstrong at y dymunoldeb o gael rhyw fes-

urau er mwyn cadw y bobl ieuainc, a chymmerodd y Parch. P. Wicksteed yr un llinell. Yn ddiweddaf dywedodd y Parch. Charles Beard, os byddent byw y bywyd crefyddol mewn gwirionedd, yr oedd yn anmhosibl iddynt i beidio gwneyd yr oll a allent, gan nad beth fyddo'r aberth i ddwyn dynion at Grist ac at Dduw.

Am dri o'r gloch y prydnawn, cymmerwyd y gadair gan Mr. Joseph Lupton o Leeds, yr hwn a amlygodd ei obaith mai un o ffrwythau blaenaf a mwyaf sicr y gynnadledd fyddai fod pob un yn myned yn ol i'w gartref wedi ei gyfnerthu a'i barotoi i wneyd ei waith yn well nag o'r blaen. Edrychai gyda pharch a chariad ar weinidogion ein Heglwysi, ac ni fu erioed yn teimlo yn falchach nag heddyw o'r enwad y perthynai iddo. Darllenodd y Parch. R. A. Armstrong, Nottingham, bapyr ar "*Y modd goreu i helaethu Dylanwad Crefyddol ein Heglwysi*," a sylwai er fod ein dylanwad gwleidyddol fel enwad yn ddiamheu yn fawr, nad oedd yn hawdd i benderfynu pa faint oedd ein dylanwad ar feddwl y genedl. Yr oedd eu lleygwyr yn ddifater, ac yr oeddent yn profi anhawsder i ledaenu eu hegwyddorion trwy y gwahanol gyhoeddiadau cyfnodol ac mewn dulliau ereill. Dymuniad rhai pobl oedd eu gweled mor fywiog â'r *Salvation Army*. Nid oedd ef yn dal y syniad yma. Eu lle hwy oedd ar flaen byddin Cristionogaeth; nis gallent o herwydd hyny byth gael corff y fyddin gyda hwy. Er hyny dylai eu hamcan fod i gasglu'r bobl i wrandaw arnynt; ond er mwyn gwneyd hyny yr oedd yn rhaid i feddwl crefyddol yr Eglwysi i gael ei ddadblygu. Yr oedd yn rhaid iddynt ddeffroi eu pobl ieuainc at eu dyledswyddau, ac yr oedd rhwymedigaeth ar eu cyfreithwyr, eu masnachwyr a'u meistriaid gwaith i gydweithredu â'u gweinidogion. Yr oedd mwy o haelioni hefyd yn ofynol. Yr oedd yn waith ofer iddynt i berswadio eu hunain eu bod lawer o ddifrif, pan na roddent tuag at adeiladu capeli gymmaint ag a roddent bob blwyddyn am ddarluniau, cerbydau a gerddi. Yr oedd y cyfarfodydd crefyddol oeddent wedi eu cynnal mewn neuaddau cyhoeddus yn rhai o'n prif drefydd wedi bod yn llwyddiannus, ond os oeddent i gael eu parhau, yr oedd yn rhaid iddynt wrth gynnorthwy ar law lleygwyr galluog, neu ychwanegu at rif y gweinidogion. Dylid trefnu mesurau hefyd i gario cenadwri i'r prif-ysgolion er mwyn dylanwadu ar ddynion ieuainc addawol sydd yn cynnull yno. Mae bai yn sicr yn gorwedd wrth ein drws nad oes un llais yn cael ei glywed yn Oxford nac yn Cambridge yn cyhoeddi tadoldeb Duw a brawdoldeb Crist ac yn dweyd y gall meddwl uchel a gweddi ostyngedig drigo yn yr un fynwes. Wrth derfynu, dywedodd Mr. Armstrong nad oedd yn credu y deuem ni byth yn Eglwys boblogaidd, ond y gallem er hyny, gyda ffydd, brwdfrydedd, ymlyniad, cariad a gweddi, chwareu rhan nid fechan i achub y byd rhag llithro o ofergoeliaeth i Atheistiaeth, a dangos i ddynion fod bywyd, ffydd, a chrefydd i'w cael nad ydynt yn dychrynu rhag y Diafol ar un llaw, nac yn gwneyd gwatwar o Dduw ar y llaw arall. Canlynodd Mr. Richard Bartram o Lundain ar yr un pwnc, a sylwodd mai ychydig o bersonau gyda meddyliau diduedd a feiddient wadu nad yw y dduwinyddiaeth sydd yn awr yn ffynu yn y rhan fwyaf o Eglwysi uniawn-

gred yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth yr hon a broffesid hanner can mlynedd yn ol, ac yr oedd y fath sefyllfa o bethau yn ddyledus i raddau pell i ddylanwad Undodiaeth; ond yr oedd ganddynt etto i ddangos i'r byd, fod ymddygiad yn fwy pwysig nâ chredo, cymmeriad nâ duwinyddiaeth. Gyda golwg ar y dyfodol, tybiai ef y byddai yn ddinystriol i'w hachos pe byddent yn mabwysiadu credo, neu ryw ffurf boblogaidd o addoliad er mwyn tynu y lluaws i'w capeli, neu i arfer moddion amheus er mwyn ennill yr ieuainc. Os oedd gwrthwynebiad i'r enw Undodwr, dylent ei symmud trwy ei fyw i lawr, nid trwy alw eu hunain yn Gristionogion rhydd. Yr oedd yn rhwymedig arnynt i osod pwys ar eu golygiadau, ond nid mewn yspryd sectyddol. Rhaid iddynt hefyd weithio yn yr Ysgol Sul ac yn mhlith yr ieuainc; a gallesid gwneyd llawer o wasanaeth daionus trwy gynnorthwyo cynnulleidfaoedd bychain. Dylent geisio lledaenu eu hegwyddorion trwy y wasg; a chynllun da fyddai cael rhywbeth tebyg i'r ddarlith gynnulleidfaol yn mhlith yr Annibynwyr; ac er mwyn cael gwared ar yr effeithiau drwg sydd yn deilliaw oddiwrth fod y rhan fwyaf o'n cynnulleidfaoedd yn mhell oddiwrth eu gilydd, fe ddylai gweinidogion newid a'u gilydd yn amlach. Fe fyddai hyny yn dda i'r gweinidogion ac yn dda i'r bobl. Mae hyn yn arwain at y dymunoldeb o ffurfio undebau mewn gwahanol ranau o'r wlad, er mwyn ystyried a chynllunio y moddion goreu i wneyd gwaith yr Eglwysi unedig yn fwy effeithiol. Ond wedi'r cwbl, ar aelodau yr Eglwysi eu hunain, mae pwys y gwaith i syrthio. Nid yw cynlluniau o un gwerth, os na fydd ein ffydd yn ein hegwyddorion yn ddigon nerthol i roddi bywyd iddynt a'u gwneyd yn allu yn mhlith dynion. Cododd y Parch. J. Page Hopps, Leicester, i wneyd sylwadau ar y papyrau a ddarllenwyd a dywedodd mai ei anhawsder ef oedd nad oedd yn credu mewn unrhyw gynllun i helaethu dylanwad ein Heglwysi, ond fod pob aelod yn gwneyd y ddyledswydd agosaf ato. Credai ef ond i ni fod fwy o ddifrif, ac edrych ar ein crefydd yn yr un modd ag yr edrychwn ar wleidyddiaeth a llwyddiant bydol fel pethau sylweddol, fe fyddai'r cynlluniau goreu yn sier o ymffurfio o honynt eu hunain. Hawliai Dr. W. B. Carpenter fod gwir fywyd yr Eglwysi i ddechreu yn y teulu. Rhaid i yspryd hunan-aberth gael ei greu, ac fel anianyddwr yr oedd e'n credu mewn trefniant effeithiol. Yr oedd hyny yn golygu yn y corff dynol fod y gwahanol ranau yn gwneyd eu gwaith eu hunain, ac felly yr oedd yn rhaid iddi fod yn yr Eglwysi. Dylai fod gan bob aelod rhyw gylch neilldnol i lanw. Rhaid iddynt ddangos hefyd fod gwyddor yn derchafu ac yn coethi y meddwl dynol yn ei gyssylltiad a chrefydd. Dymunai y Parch. Carey Walters brotestio yn erbyn yr hyn a ddywedwyd gan rai mewn perthynas i gyfarfodydd a drefnir er mwyn difyru pobl ieuainc. Ystyriai ef ei bod yn ddyledswydd arno i ddarparu ar gyfer aelodau tlodion ei gynnulleidfa foddion adloniant a fwynheid gan y cyfoethog yn eu cartrefleoedd eu hunain. Sylwodd yn mhellach ar y llwyddiant oedd wedi dylyn ei ymdrechion i gasglu y bobl at eu gilydd mewn addoliad ar brydnawn dydd Sul yn Neuadd Drefol Kidderminster. Eu cenadwri hwy oedd nid gymmaint gosod

Undodiaeth yn erbyn Trindodiaeth, ond yn hytrach myned allan i'r byd a cheisio adgenedlu dynoliaeth; derchafu dynion yn agosach at Dduw, ac i safon uwch o wirionedd a moesoldeb. Gosododd y Parch. T. Timmins, Portsmouth, bwys ar yr arferiad o weddi gartref ac yn gyhoeddus fel peth hanfodol. Dylai fod gan bob Eglwys ei chwrdd gweddi; a galwai sylw y gynnadledd hefyd at y dymunoldeb o gynnal cyfarfodydd mawl—yr oll i gyfarfod â dyn yn ei wahanol agweddau. Dywedodd y Parch. G. St. Clair, Birmingham, mai y ffordd i luosogi Eglwysi rhydd oedd yn gyntaf, rhyddhau meddyliau y rhai hyny nad oedd eu Heglwysi yn rhyddfrydig; a'r ffordd oreu i wneyd hyny oedd gwasgar llenyddiaeth rhyddfrydig ar draws y wlad. Ymresymodd y Parch. Henry Solly, Llundain, mai gwaith difrifol a sylweddol oedd y ffordd sicraf i ddadblygu bywyd crefyddol iachus. Fel enghraifft nododd yr adfywiad a gymmerodd le yn nghyfundeb y Bedyddwyr tua dechreu y ganrif bresenol trwy eu bod wedi cymmeryd i fyny achos y genadaeth dramor mewn dull mor frwdfrydig. Terfynwyd yr ymdrafodaeth gan y Parch. J. E. Stead, Stratford, yr hwn a osododd bwys ar y gwaith dirwestol fel elfen werthfawr mewn ymdrech Gristionogol, ac a fynegodd ei argyhoeddiad y dylai Cymdeithas Ddirwestol gael ei sefydlu mewn cyssylltiad â phob un o'n Heglwysi.

Cynnaliwyd y cyfarfod hwyrol neu y *Soiree* yn y Philharmonic Hall, lle yr oedd dwy neu dair mil o bersonau wedi ymgynnull. Dyben y cyfarfod hwn oedd gwrandaw ar anerchiadau yn gosod allan brif ddybenion y Gynnadledd, ac wedi'n i roddi cyfleusdra i bawb i rydd ymddyddan á'u gilydd, i newid golygiadau, ac i adnewyddu hen gyfeillachau. Yr oedd yno gasgliad helaeth o gywreinion gwyddorol, a gweithiau celfyddydol wedi eu dosparthu ar hyd yr ystafell; ac yr oedd hefyd gôr o gantorion medrus yn ychwanegu at ddyddordeb yr olygfa. Cymmerwyd y gadair gan Mr. D. Ainsworth, M.P., Cadeirydd y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain, yr hwn a ddywedodd fod llawer o lwyddiant y gynnadledd yn ddyledus i'r brwdfrydedd gyda'r hwn yr oedd y cyfeillion yn Lerpwl wedi cymmeryd y mater i fyny. Yr oedd yn ddrwg ganddynt o herwydd absenoldeb Dr. Martineau, yr hwn oedd yn hollol analluog i fod yn bresenol. Yr oedd y Dr. wedi ysgrifenu llythyr yn amlygu ei gydymdeimlad ag amcanion y gynnadledd. Yr oedd Mr. Henry Richard, M.P., wedi anfon llythyr i ddangos ei ddyddordeb yn y cyfarfod. Ysgrifenodd Proff. Kuenen o Leyden i ddweyd fod y gynnadledd o ddyddordeb cenedlaethol. Gobeithiai y cadeirydd y byddai rhagor wedi uno á hwy o enwadau crefyddol ereill ar achlysur y gynnadledd nesaf, Yna galwodd ar y Parch. H. W. Crosskey o Birmingham, i osod allan amcanion y gynnadledd. Llawenychai Mr. Crosskey wrth weled ton ac yspryd y cyfarfodydd, yr olwg ryddfrydig a gymmerwyd ar bob pwnc; a'r yspryd defosiynol a chrefyddol oedd yn nodweddu y gynnadledd. Nid fel damcanwyr ar bynciau dirgelaidd yr oeddent wedi ymgynnull, nid fel gwrthwynebwyr barnau sefydledig, ond fel rhai yn credu fod ganddynt efengyl ddigonol i gyfarfod á phechodau a nwydau y byd, ac i sefydlu teyrnas Dduw. Er fod eu gwahaniaethau meddyliol mewn

perthynas i'r Beibl, y gwyrthiau, safle Iesu Grist, dechreuad dyn, &c., yn fawr; etto er gwaethaf yr amrywiaeth yma, yr oeddent gydag unfrydedd perffaith yn ceisio canlyn llwybrau, a chael eu dylanwadu gan yspryd eu Hathraw mawr o Nazareth. Y peth mawr oedd wedi cael ei drin yn eu cyfarfodydd oedd bywyd crefyddol ein Heglwysi. Er fod llawer cyhuddiad wedi eu dwyn yn eu herbyn, etto beiddiai ddweyd fod digon o brawf wedi cael ei roddi gan eu gweinidogion yn ystod y gynnadledd i ddangos mai eu dymuniad blaenaf oedd anadlu yspryd Duw i galonau ei blant. Yr oedd un ffaith yn neillduol wedi ei phenderfynu yn y gynnadledd bresenol, hono oedd ei bod yn anmhosibl i ddryllio'r undeb a fodolai rhyngddynt fel cynnrychiolwyr yr Eglwysi rhydd. Yr oeddent yn un mewn yspryd, mewn crefydd ac mewn addoliad er cymmaint oedd eu gwahaniaethau mewn barn ac opiniwn. Carai ef gael gwared o'r enwau *hen ysgol* a'r *ysgol newydd*. Nis gwyddai ef ei hun i ba un o'r ysgolion yma y perthynai. Yr unig beth a wyddai oedd ei fod yn dal yr olwg hono ar fywyd oedd yn llewyrchu gyda dysgleirdeb dwyfol o dudalenau yr Efengyl ac yn ceisio yn ngharlad Duw a amlygir yn brynedigaeth oddiwrth bechod dynol. Gyda byd o bechod o'n blaen, gyda gwirionedd mawr Duw i'w ganlyn, a'i yspryd yn ein calonau, gadawer i bob ymryson o gilio ymaith fel y byddont yn un pobl, gydag un galon ac un yspryd. Siaradai rhai pobl am ysgol Channing, ereill am ysgol Parker, ereill am ysgol Priestley, ac ereill am ysgol Martineau; ond yma etto nis gwyddai ef am un ysgol ar wahan. Yr oedd crefydd y rhai hyn i gyd yr un. Un ysgol oeddent mewn gwirionedd, gan eu bod wedi eu bedyddio i'r un yspryd, i esiampl yr un bywyd dwyfol, i fawredd yr un gobaith anfarwol, a chariad yr un Duw trugarog. Sylwodd yn mhellach ar y cydymdeimlad a'r cydweithrediad a ddylai fod rhwng gweinidogion a lleygwyr, a therfynodd trwy ddweyd fod y dydd hwn yn ddydd ymgyssegriad o'r newydd iddynt i gyd, a'i fod yn clywed, fel pe byddai llais ein Harglwydd yn dweyd: "Chwi a fyddwch yn blant anwyl i mi, yn fy nghynnorthwyo i waredu y byd oddiwrth ei bechodau, wedi eich rhwymo mewn cydymdeimlad o'r dydd hwn allan, yn un pobl wedi eich bedyddio mewn un galon ac un yspryd." Canlynwyd Mr. Crosskey gan y Parch. Pitt Dillingham, un o'r cynnrychiolwyr Americanaidd yn y gynnadledd, i'r hwn y rhoddwyd croesaw cynhes. Dywedodd ei fod ef a'i gyfaill wedi dyfod i chwareu rhan y llygaid a'r clustiau, i dderbyn yn hytrach nâ rhoddi. Chwareuent hefyd ran y llaw, a pheth hyfryd oedd derbyn deheulaw cymdeithas oddiwrth y gynnadledd. Yr oedd ef yn llawenhau wrth weled natur ymarferol y pynciau a drinid yn y cyfarfodydd. Canolbwynt yr holl fater oedd dadblygiad y bywyd crefyddol. Yr oeddent wedi deall hyny erbyn hyn yn America ac wedi cymmeryd i fyny waith ymarferol yn lle dadleu ar bynciau nas gellid eu penderfynu. Terfynwyd y rhan yma o'r cyfarfod trwy i'r cadeirydd alw ar y Parch. Dr. Drummond un o athrawon Manchester New College, Llundain, yr hwn a ddywedodd fod eu bodolaeth fel Eglwys nad oedd wedi ei rhwymo gan un gredo yn codi oddiar eu hargyhoeddiad mai yr yspryd

sydd yn creu duwinyddiaeth ac nid i'r gwrthwyneb, ac nad yw duwinyddiaeth byth yn allnog i gynnrychioli yr yspryd yn berffaith. Yr oedd undeb y byd Cristionogol wedi cael ei ddwyn i sylw drachefn a thrachefn yn ystod y gynnadledd, ac ond iddynt i fyned yn ddigon dwfn, fe gawsent allan fod yr undeb yma yn sylweddol, a bod gan yr holl Eglwysi un amcan mawr i geisio ati—y bywyd dynol wedi ei ogoneddu gan Yspryd Duw. Nid yn ein plith ni yn unig, ond mewn enwadau ereill mae llawer yn dyfod yn ymarferol i gydnabod y safle cang yma, i deimlo fod gwir undeb yr yspryd o dan ein holl wahaniaethau, ac i grodu er mor amrywiol ydyw ein barnau ein bod yn addoli yr un Duw, yn gwasanaethu yr un Arglwydd ac yn ymestyn yn mlaen at yr un bywyd tragywyddol. Canlynwyd yr areithiau gan ddarnau o gerddoriaeth a genid gyda'r fath effeithioldeb fel ag i ennill gwrandawiad a chymmeradwyaeth, er fod y brofedigaeth i ymgomio ac i edrych oddiamgylch ar yr olygfa brydferth yn fawr. Yn mhlith y gwythddrychau dyddorol oeddent yn wasgaredig ar hyd yr ystafell yr oedd y Cymry presenol yn cael eu tynu yn neilldnol at un gongl lle y gellid gweled Darluniau (*Photographs*) o Hen Gapel a Chapel Newydd Llwynrhydowen, o'r diweddar Barch. W. Thomas, yn gystal ag o olygfeydd swynol yn nghymmydogaeth Llandyssul. Gosodwyd y rhai hyn i fyny gan Mr. George Eyre Evans, mab y Proff. Evans diweddar Gaerfyrddin. Mae Mr. Evans, yr hwn a fu yn ysgol Mr. Thomas am flynyddau, yn parhau i fynwesu adgofion melus am ei arosiad yn Llandyssul.

(*I'w barhau.*)

MISOEDD Y FLWYDDYN A'U HEFFEITHIAU.

(Allan o Ail Rifyn y "Gwron Cymreig," am Chwefror y 1af, 1838.—Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan y Parch. Josiah Thomas Jones, Pont Jackson, Merthyr Tydfyl.)

1.—Amser hir yn wir yw'r nos—yn Ion-
A'i anian yw'r achos [awr,
I'r ŵyn golli yr einio's
A'r hwrdd du grymu yn gro's.

2.—Gwynt Chwefror sydd o'r i ddyn—i
Dros fynydd a dyffryn, [fyned
Gŷr dôn bêr yr aderyn
I waeth hŵyl o'i nyth ei hun.

3.—Mawrth a ddaw er braw, yn ei bryd—
A nesa mor oerllyd, [ei naws
Y groenllwm fydd yn grynllyd
A'r oen bâch gaiff yr un byd.

4.—Ebrill a ennill anian—mor fwyned
Mawr fynydd yr Alban,
Y fwyalch ddu mor fuan
Rhwydd a chwêg y rhydd ei chân.

5.—Yn mis Mai o dai bob dydd—cawn
[glywed
Cân glewion mewn creigydd,
Rhyw ergydion o'r coedydd,
Caniad o'r llwyn fwyn a fydd.

6.—Egin Mehefin o hyd—agorant,
A'r gwair ddaw yn hyfryd
I rai gael gorau golyd,
A hoen faith yn hyn o fyd.

7.—Gweir mwynion gwiwlon a gâf—i'w
Ar ddiwedd Gorphenaf, [ddewis
Gan awydd i gynauaf
Yd a dorir ar dir daf.

8.—Awst a rydd beunydd i'r byd—ryw
O roddion gwir hyfryd. [raddau
O hwn cair yr aur trwy'r yd,
Efe bïa arf bywyd.

9.—Ar uchelfan dàn oer dwyni—y daw
Cyn diwedd mis Medi,
Gwenith a haidd i'n gweini
Ar lêd yn aeddfed i ni.

10.—Hydref a ddwg gilwg, gwelaf—naws
Nos erwin ddysgwyliaf [oeraidd
Daw yn glau wrth fin gauaf,
Oerwlaw rhwydd—ffarwel i'r hâf.

11.—Mis Tachwedd a'i wedd a'i waith—
Ddïatal i'n talaeth; [ddaw eto'n
Hwn yw'r llew, yr hen a'r llaith
A'i oer rym a ŷr ymaith.

12.—Yn eglur Rhagfyr a rydd—dalaeth
Dan lwythi, neu orchudd [oedd
O eira yn fara 'fydd
Yn glynu ar fin glenydd.

Ger Aberdâr. Ed. Thomas Edwards.

O.Y.—Nis gwn beth oedd y rheswm i osod "*Ger* Aberdar" yn y papyr, oddieithr am nad oedd yn byw yn "*Mhentref*" Aberdar. Yr oedd yr hen Fardd yn byw tua yr amser hwn yn "*Mhant-y-Flash*," Aberdâr. Adwaenwn ef yn eithaf da, a gwelais ef laweroedd o weithiau (pan oeddwn fachgenyn) yn Hen-dy-Cwrdd, Aberdâr: ysgrifenais o'i enau Enwau Cymreig y "Naw Ach."—Cynonwyson.

[Bu farw E. T. E., Tachwedd, 1840, a chladdwyd ef yn medd Thomas ei fab yn mynwent Cefncoed. Collodd y mab hwn ei fywyd dan amgylchiadau hynod. Fel llawer ereill yr oedd wedi myned i Ferthyr i weled "baito tarw," peth digon cyffredin tua'r amser hwnw. Torodd y tarw ei hunan yn rhydd fodd bynag, a gyrodd ei gorn trwy Thomas, yr hyn a fu'n achos o'i farwolaeth. Dywedir na fu baito tarw byth wedi hyn yn Merthyr, fod yr awdurdodau wedi gosod atalfa arno. Yr oedd hyn yn agos i 60 mlynedd yn ol. Yn 1835 pasiwyd deddf i dori'r arferiad i lawr. Gelwir un lle y baitid y teirw hyd heddyw yn Pant-y-*bwrlin* (=*bull ring*), yr hwn sydd gerllaw fferm y Tai-mawr. Dywedid yn Merthyr mai mab Mawd o'r Gnol oedd y dyn a gollodd ei fywyd. Mawd oedd enw gwraig E. T. E. Ar ol marwolaeth ei gwr (tua 80 oed) aeth Mawd i fyw i Nantyglo at ei merch. Teiliwr wrth ei alwad oedd E. T. E., er ei fod ar brydiau yn gwaddota. Yr oedd o alluoedd hwnt i'r cyffredin ac yn gallu troi ei law at lawer peth. Tua 1795 feallai, darfu iddo ddyfeisio canal tanddaearol yn nglobwll newydd y Dyllas er trosglwyddo'r glo allan; un W. Evan Rees wnaeth y bâd. Y canal hwn wrth bob tebyg oedd y cyntaf yn yr holl ardaloedd. —Gol.]

Y PRESENOL A'R DYFODOL.

Teithwyr ydym heddyw ar chwarcufwrdd amser, mewn byd sydd a dau allu gwahanol yn gwrthwynebu eu gilydd ynddo; ac y mae dylanwad y ddau ar wahanol adegau yn ganfyddadwy yn eu heffaith ar bethau bywydawl yn eu gwahanol ffurfiau.

Mae cyfaddasrwydd cyfansoddiadol gwahanol wrthddrychau a'r fan y bodolant ynddo, yn profi eu bod yn effaith o gynllun ag sydd wedi ei dynu gan feddwl o ddoethineb a gallu Anfeidrol. Nid peth damweiniol ydyw creadigaeth, ond cyfanwaith ydyw ag sydd yn ysgogi o fewn cylch neilldnol i gyflawnu amcan yr hwn a'i gwnaeth.

Daw amser i'r golwg i ni a gweledigaethau newyddion, yn llawn o ryfeddodau a phrydferthwch; yn brofion nad oes a all eu cynnyrchu nà rhoddi ei stamp arnynt, ond y llaw anweledig ei hun.

Mae bodolaeth weledig pethau yn effaith sydd wedi ei gynnyrchu i ddyben neillduol; ac y mae y ddarpariaeth sydd ar ei gyfer yn brawf fod y draul wedi ei chyfrif yn flaenorol, gan Fod ag oedd yn canfod y diwedd o'r dechreu. Mae y ddeddf gyfansoddiadol, ag sydd yn gweithio tufewn *y peduir elfen*, (?) gan eu ffurfio yn gyrff o wahanol faintioli a nerth, yn ddybynol am eu cynnaliaeth ar y gallu a'i dygodd i fod. Gwelwn hefyd effaith deddf arall (*resisting medium*), yn gwrthwynebu dylanwad deddf bywyd; ac y mae y gwenwyn a wthia i fewn i wahanol gyrff bywydawl, yn meddu gallu digonol i wywo eu prydferthwch; efe a newidia eu gwyneb ac a'i danfona i'w ffordd; nid oes modd i osgoi effaith y gallu hwn, cyn iddo mewn pryd orphen ei waith; mae yn ffaith ei fod wedi gweithio ei ffordd i greadigaeth gyfnod maith cyn i'r ddaear i ymffurfio yn ei hagwedd bresenol; ac y mae ei effaith yn ganfyddadwy ar blanedau ereill a welwn yn hongian yn y gwagle diderfyn, yn brawf y bydd iddo mewn rhyw gyfnod pa mor faith bynag, etto tufewn yspaid meidrol gyrhaedd ei eithaf-ben.

Adeg ofnadwy fydd hon; adeg y derfydd deddf atdyniad a chydbwysiad yn eu heffaith, ac y diffodda haul natur am byth, ac y neidia pob seren allan o fodolaeth; pan y coda gwynt ystormus diwedd amser i chwythu bywyd à marwolaeth i wrthdarawiad ar nos sadwrn olaf y greadigaeth. Wedi i'r afiwydd gilio dros y gorwel tragywyddol, tor gwawr boreu braf, boreu na welir ei nawn yn dragywydd; cwyd Haul Anfeidrol gan sefyll ar gyhydedd mawr y greadigaeth newydd. Treiddia bloedd yr Archangel i ystafelloedd y bedd, a dihuna plant angau, ac ni ystyriant eu cwsg namyn hun fer. Daeth ernes i ni o adgyfodiad gyda'r wawr trwy ddor y bedd newydd, yn ysgub fendigedig y blaenffrwyth. Llawenyched aelodau yr Eglwys filwriaethus ag sydd heddyw yn yr anialwch; mae diwrnod mewn addewid iddynt gael eu huno à'r Eglwys orfoleddus fry mewn cymmanfa na dderfydd. Buom yn ddedwydd ar adegau neillduol wrth wrandaw cewri yr areithfa ar eu huchel fanau, ond nid yw y penaf heddyw ond megys canwyllau brwyn wrth eu cymharu à'r sér dysglaer a saif ar lwyfan Caersalem Newydd yn y dydd hwnw.

Cwm Cych. JAMES HERBERT.

CHARLES ROBERT DARWIN.

(GANWYD CHWEFROR 12, 1809; BU FARW EBRILL 19, 1882.)

ER fod Dr. Darwin, yn ol yr *Athenæum* "the greatest intellect of the nineteenth century" ac er fod ei weddillion wedi cael yr anrhydedd o'u gosod i orwedd gyda llu o enwogion mwyaf ein gwlad yn Westminster Abbey—"y deml hono" fel y dywed y *Christian World* "o ddystawrwydd a chymmodlonrwydd lle mae ymrysonau ugain o genedlaethau yn gorwedd yn gladdedig," etto nid wyf yn meddwl y byddaf yn mhell o'm lle wrth ddywedyd nad yw amlafrif trigolion

Cymru yn gwybod ond ychydig neu ddim am dano; a llawer o'r rhai a wyddant ychydig, a wnant yr ychydig hyny yn achlysur gwawdio. Eu hunig feddylddrych am Darwin yw, ei fod yn dysgu fod dyn yn disgyn o'r mwnci. Dyma eiriau un o'r beirdd:

O arswyd mawr os ydym oll—a'n cywion
Yn fwnciod gwreiddgoll;
Aed diraddiwr gwr i goll,
A'i fwnci i ddifancoll.—(*Drych* Americanaidd.)

Ac fel hyn y dywedai y diweddar Mortimer Collins:

"There was an ape in the days that were earlier,
Centuries passed and his hair grew curlier,
Centuries more gave a thumb to his wrist,
He was then a man and a positivist."

Yn awr, nid yw yn fy meddwl i geisio amddiffyn Darwin a'i syniadau, ond yn hytrach rhoddi ychydig o hanes Darwin a'i waith. Etto nis gallaf lai nâ sylwi na wnaiff gwawd benderfynu dim y naill ffordd na'r llall. Beth yw y gwirionedd ddylai fod yn nod ein hymgais. Nid wyf yn gallu gweled ei fod yn fwy o ddiraddiad i ddyn ei fod wedi deilliaw o'r epa nâ'i fod wedi dyfod o'r clai neu bridd y ddaear. Gallwn feddwl ei fod yn fwy o anrhydedd i ddyn ei fod wedi *esgyn* o'r mwnci os ydyw, nâ'i fod wedi *disgyn* oddiwrth yr angylion; oblegyd yn y naill y mae ar lwybr cynnydd a gwelliant, tra yn y llall y mae wedi dirywio.

Cafodd Darwin ei eni yn Shrewsbury, ac yn Ysgol Rammadegol y dref hono y derbyniodd ei addysg ragbarotoawl. Aeth i Edinburgh yn 1825 i barotoi ei hunan fel meddyg. Yr oedd ei dad, Dr. R. W. Darwin, wedi graddio yn Ddoctor yno yn flaenorol.* Yn Edinburgh bu Darwin yn weithgar iawn fel naturiaethwr, ac yn *records* y "Plinian Society" ceir adrodd mynych am dano—yn arddangos ei *specimens* neu yn darllen ei draethodau. Wedi dwy flynedd, yn 1826, rhoddodd i fyny ei efrydiaethau meddygol (y derbyniad o *fortune* yn ei gwneuthur yn ddiangen iddo bellach ddylyn ei alwad fel meddyg er ennill bywiolaeth) er mwyn ymgyflwyno yn hollol at ei hoff efrydiaeth fel naturiaethwr. Felly aeth i Christ College, Cambridge, ac yn 1831, graddiodd yn B.A., heb un *distinction* ychwanegol mor bell ag y gwyddis. Yr oedd ef yn rhy ddiwyd gyda'i hoff bwnc i roi'r amser angenrheidiol er sicrhau *honours* a gwobrwyon y Brifysgol. Fodd bynag, cymmerodd ei M.A. yn 1837; ac yn 1877, pan oedd ei maethmab wedi dyfod yn naturiaethwr enwocaf ei oes, ac nid heb deimlo peth pryder yn nghylch doethineb y mater, hyd y nod y pryd hwnw, y darfu i'w Brifysgol roddi iddo y gradd o Ddoctor yn y gyfraith. Yr oedd Prifysgol Leyden wedi cydnabod ei haeddiant yn flaenorol trwy roddi iddo y gradd o Ddoctor mewn meddyginiaeth. Yn 1831, nid oedd yn

* Yr oedd yn wyr i Dr. Erasmus Darwin, F.R.S., awdwr amryw lyfrau enwog, ac ar ochr ei fam yn wyr i Josiah Wedgwood.

adnabyddus ond i ychydig, er fod yr ychydig hyny yn gwybod am ei dalentau dysglaer. Yn mhlith y rhai hyn oedd Proff. Henslow, a lanwai y *Botanical Chair* yn Cambridge. Pan gychwynodd Cadben (wedi hyny Admiral) Fitzroy ar ei daith enwog oddiamgylch i'r byd yn 1831, cafodd Darwin ei ddewis i fyned gydag ef. Enw y llong oedd y *Beagle*, ac ni bu mordaith erioed feallai yn fwy ffrwythog o ganlyniadau. Yn rhyw ystyr gellid cymharu mordaith Columbus yn y *Santa Maria* yn 1492, ac eiddo y Puritaniaid yn y *Mayflower* yn 1620. Parhaodd y fordaith yn agos i bum mlynedd, canys ni ddychwelodd y Beagle i Loegr hyd Hydref, 1836. Yn fuan wedi ei ddychweliad ymsefydlodd yn y Down, gerllaw Bromley yn Kent, ac yno y treuliodd y rhan fwyaf o'r gweddill o'i ddyddiau. Priododd yn 1839; ac y mae wedi gadael ar ei ol, heblaw ei weddw, saith o blant, pump bachgen a dwy ferch. Gellir dywedyd iddo dreulio ei holl fywyd, o leiaf er pan yn 22ain oed, gyda'i hoff ymchwiliadau. Mae yn anhawdd nodi allan neb wedi treulio eu gyrfa mor hollol hunan-ymwadol. Treuliodd Newton a Herschel oes hir yn ngwasanaeth Gwyddiant; ond darfu iddynt hwy hefyd ddal swydd "Master of the Mint;" tra'r oedd yr unig naturiaethwyr ereill y gallwn ei gymharu a hwy, sef Linnaeus, Cuvier, ac Owen, trwy orfod neu ddewis, yn rhoddi rhan o'u gwasanaeth at oruchwyliaethau ereill.

Tebyg mai y papyr cyntaf a gyhoeddwyd ganddo ar ol ei ddychweliad o'r fordaith rag-grybwylledig oedd un ar arferion estrys South America, yr hwn a ddarllenwyd mewn cyfarfod o'r Zoological Society yn Mawrth, 1839. Yr oedd Mr. Gould yn yr un cyfarfod wedi desgrifio rhywogaeth newydd o'r estrys, i'r hwn y rhoddodd yr enw *Rhea Darwinii* er anrhydedd i'w ddarganfyddwr, ac wedi siarad yn uchel iawn am ddarganfyddiadau gwyddonol Mr. Darwin. Ychydig freuddwydiodd Mr. Gould fodd bynag am bwysigrwydd gwirioneddol darganfyddiadau y fordaith hono i'r hil ddynol. Ar y fordaith hon ac yn 1834, wrth bob tebyg, tarawyd y naturiaethwr ieuanc gan ffeithiau neillduol yn dal cyssylltiad ag anifeiliaid South America, a meddyliodd y gallai goleuni ddyfod o'r cyfeiriad yma ar 'Darddiad Rhywogaeth.' Am 23 mlynedd ar ol ei ddychweliad, parhaodd yn casglu defnyddiau ac yn myfyrio arnynt cyn rhoddi i'r cyhoedd ffrwyth ei ymchwiliadau. Yr oedd ei gynllun yr un gyda'i holl efrydiaethau, a'i amynedd yn ddibendraw. Yn ei waith dyddorol diweddar ar ddylanwad amwydod yn ffurfiad "vegetable mould" mae yn desgrifio un *experiment* a wnaeth. Gosododd haen o sialc ar lain o dir yn 1842, ac arosodd yn dawel am y canlyniad hyd 1871. Nid oedd y rhan fwyaf o'r llyfrau a gyhoeddodd o 1837 yn mlaen ond ffrwyth yr adeiladu a wnaeth ar y seiliau oeddynt wedi eu gosod yn ystod y fordaith. Yr oedd ei draethawd ar y "Coral Reefs" (1842) yn ddigon i'w anfarwoli fel daearegydd; a gwnaeth ei "Journal of Researches" (1845) ei enw yn hyspys lle bynag y llefarir yr iaith Saesneg. Yn 1854 cyhoeddodd lyfr a sicrhaodd ei glod yn ddyogel fel *zoologist*. Yn 1853 y derbyniodd *Royal Medal* y "Royal Society." Yr oedd felly yn "full of honours and distinction, with a reputation as a man of

science of the highest order," cyn ymddangosiad gwaith mawr ei fywyd, sef "Origin of Species." Yr oedd llinell ei ymresymiad wedi bod yn hyspys am rai blynyddau cyn hyn i rai cyfeillion, megys Lyell a Hooker. Yn 1858 y gosododd o flaen y "Linnaean Society" yr hyn sydd yn awr yn ffaith ddigon adnabyddus, fod dosparth y llysiau i'r hwn y perthyna'r *sweetpea* yn gofyn cael ei ffrwythloni trwy offerynoliaeth pryfaid; ond ni thybid etto fod yr amser wedi dyfod i roddi cyhoeddusrwydd i'w "Ddamcaniaeth." Daeth yr amser hwnw fodd bynag i ben yn y diwedd mewn modd tra disymwth. Yn 1858 danfonodd Mr. A. R. Wallace, yr ysprydegydd enwog, bapyr adref o'r Malay Islands, yn rhoddi ei olygiadau ar yr "Origin of Species," neu "Darddiad Rhywogaeth." Sylwodd Lyell a Hooker ar unwaith ar y ffaith fod Wallace wedi dyfod i'r un casgliadau bron yn hollol â Darwin, ac mewn rhai enghreifftiau wedi rhoddi darluniad o honynt yn yr un geiriau. Teimlid felly na fyddai oediad pellach ddim yn deg i Wallace nac yn gyfiawn i Darwin, ysgrif yr hwn oedd wedi bod yn gorwedd yn annghyhoeddedig am amryw flynyddau. Felly, Gorph. 1, 1858, darllenwyd papyrau o eiddo y ddau gerbron y "Linnaean Society," ac o'r dydd hwnw mae yn rhaid cyfrif genedigaeth y "Darwinian Theory," er mai Tachwedd 24, 1859, y gwnaeth yr "Origin of Species" ei ymddangosiad, ac y gosododd y byd fel pe byddai ar unwaith ar dân gwyllt. Mae yn ddifyrus edrych yn ol yn awr ar y gwawd a'r dirmyg a gyfarfyddodd ei ddamcaniaeth yn rhai manau; a nodi y gwahaniaeth graddol sydd wedi cymmeryd lle yn marn y cyhoedd fel mae amser wedi myned yn mlaen. Dywedir fod adolygiadau y *Times* ar lyfrau olynol Darwin yn *index* lled dda o'r cyfnewid graddol hwn. Mawr oedd y difyrwch a wnaethai *Punch* o'r Ddamcaniaeth, a mawr oedd y cyhoeddi a'r cyhuddo yn y pwlpudau. Yr oedd offeiriad y Down bob Sul yn ei hateb i'w gynnulleidfa o bobl wledig. Bellach dybygwn fod hyny yn mron darfod.

Dywedir fod Darwin wedi bod i raddau yn ffodus yn ei bleidwyr; gwir fod rhai o honynt yn myned i eithafion, yn benaf ar y Cyfandir. Teimlid fod byd o oleuni wedi ei fwrw ar wahanol gangenau gwyddoniaeth, a chyfleodd Huxley, a Lyell, a Hooker a Herbert Spencer yr egwyddorion at oleuo eu gwahanol cfrydiaethau eu hunain. Nid oedd yr "Origin of Species" ond math o agoriad ar y pwnc, i'w ganlyn yn ol llaw gan lyfrau ereill a gadarnhaent yr un egwyddorion. Mae yr ymadroddion a ddygwyd i arferiad ganddo, "survival of the fittest" (goroesiad yr addasaf), "struggle for existence" (ymdrech am fodolaeth), "natural selection" (dewisiad naturiol)—wedi dyfod yn ymadroddion cyffredin ein llafar a'n llenyddiaeth; ac yn Senedd Awstria ychydig yn ol dywedodd y Llywydd fod y ddamcaniaeth wedi dyfod yn un o brif bynciau y byd. Mewn 21 mlynedd mae llenyddiaeth y pwnc wedi dyfod mor fawr ag i lanw llyfrgell gyffredin, ac yn Germany mae llyfrwerthwyr yn rhoddi dosparth iddynt yn eu *catalogues* ar eu penau eu hunain dan yr enw "Darwinismus."

Egwyddor sylfaenol y "Ddamcaniaeth Ddarwinaidd" yw, nad yw yr holl amrywiaethau planhigion ac anifeiliaid a welwn yn y byd ddim

wedi eu creu, ond wedl eu dadblygu (evolved) allan o ryw ychydig neu fe allai o ryw un organ-gorff* syml, trwy system o "ddetholiad naturiol," trwy yr hwn y mae unrhyw rywogaeth (*species*) yn lle bod yn annghyfnewidiol, o hyd yn agored i gyfnewidiad, o herwydd fod rhyw un fe allai o'r dosparth wedi ei addasu yn well tuag at ymgymhwyso at sefyllfa y pethau a'i amgylchynant, ac felly wedi enill y blaen arnynt, a lluosogi ar eu traul. Mae mwy o organ-gyrff neu o greaduriaid yn marw nag sydd yn byw. Nid oes dau organ-gorff neu greadur yn gwbl yr un peth. Mae nodweddion neilldnol pob creadur yn drosglwyddadwy. Mae y creaduriaid hyny ag y mae eu nodweddion neilldnol yn eu dwyn i ymgyfaddasiad agos at sefyllfa y pethau a'u hamgylchynant yn gallu byw, ac y maent yn trosglwyddo eu neilldnolion i'w hiliogaeth. Mae "goroesiad yr addasaf" felly yn tueddu i gadw i fyny y *balance* rhwng rhif y creaduriaid a'r sefyllfa y maent ynddo. Mae y sefyllfa allanol i bob dosparth o greaduriaid yn barhaus yn newid. Rhaid gan hyny i bob dosparth o greaduriaid fyned dan gyfnewidiad o ran rhai o'u nodweddion neu syrthio i ddifodiant. Mae y cyfnewidiad fyddo yn cymmeryd lle yn un rhan o'r corff o angenrheidrwydd yn achosi cyfnewidiadau mewn rhanau creill, ac mae'r cyfnewidiadau yma yn dyfod dan y ddeddf fod aelodau yn cael eu meithrin i'r graddau y byddont yn cael eu defnyddio, ac felly mae y cyfnewidiadau yma yn dwyn oddiamgylch wahaniaeth yn ngharacter unrhyw ddosparth o greaduriaid. Yr ydwyf wedi ceisio gwneuthur y gosodiadau yma mor blaen ag y medrwn. Os caniateir hwynt, nid yw Darwin yn gofyn dim rhagor genym nà chredu fod digon o amser wedi pasio oddiar ymddangosiad bywyd yn y byd i gynnyrchu yr holl amrywiaethau creaduriaid a welir genym yn awr.

Fel rhai yn chwilio am y gwirionedd credwn na ddichon un niwed ddygwydd oddiwrth ddarganfyddiadau gwyddoniaeth. Pa un a ydyw Darwin wedi darllen y bennod yma o lyfr natur yn iawn neu nad yw, amser a ddengys. Mae ei fod wedi ymdrechu mor ardderchog ac mor ddiwyd yn glod mawr iddo, ac y mae ei fywyd gweithgar yn teilyngu sylw ac edmygedd pawb sydd yn caru y gwirionedd. Anwybodaeth dynion sydd wedi peri eu bod yn haeru fod Darwiniaeth yn gwneuthur y byd yn beiriant hunan-weithiol, ac yn cau Duw allan o hono. Nid oedd Darwin yn credu nac yn dysgu dim o'r fath; ac mae yn bosibl y ceir gweled yn ol llaw ein bod yn ddyledus i Darwin yn gymmaint ag i Newton am feddyldrych ardderchocach am briodoleddau Duw Natur, er i rai fod wedi gobeithio am i'r "gyfundrefn" gau dyn allan o'i chymhwysiadau, pan yr oedd nerth ymresymiad yn ei orfodi ef i fyned i mewn i ardal "where angels fear to tread."

Treuliodd ei fywyd diwyd, carnaidd, ac egwyddorol mewn ymdrechion, gwrol yn wir a diofn, ond nid di-barch, i ddangos i ddynion

---

* Organism. Gwnaiff *organ* gystal Cymraeg ag y gwnaiff Saesneg. Mae bron yn gyfystyr ag *aelod*, aelod naturiol, rhan o gorff byw yw, megys llaw, tafod, bys, &c. Organ-gorff yw corff byw yn cynnwys aelodau at ryw orchwyl neu waith.

brydferthion a rhyfeddodau yn ngweithiau Duw nad oeddynt o'r blaen wedi eu darganfod, ac felly i agor eu llygaid yn nghanol dwndwr byddarol oes beirianyddol a'u galluogi i weled ol troed y Creawdwr yn nghanol ei ardd.

T. C. U.

PREGETHU LLEYGOL.

Yr wyf o'r farn fod eisieu galw sylw Undodiaid Cymru at y testyn uchod, ac ymdrechaf wneyd hyny yn awr, os gwelwch chwi, Mr. Ymofynydd, yn dda i roi i mi gymmaint a thudalen neu ddwy o'ch misolyn i'r perwyl. Wrth bregethu *lleygol* yr wyf yn golygu pregethu gan wr lleyg, neu gan wr heb fod wedi cael ei ddwyn i fyny i'r weinidogaeth mewn ysgolion a cholegau, neu gan wr heb fod a'i enw ar y llechres weinidogaethol, pa un ai wedi cael manteision addysg a'i peidio. Mae pregethwyr ac offeiriaid, fel rheol, yn cael eu codi i fyny yn rheolaidd i'r areithfa neu'r *platform*; maent yn myned trwy gwrs addysg a dybir yn angenrheidiol er eu cymhwyso at eu swydd a'i llanw yn llwyddiannus; maent yn ymneillduo neu yn cael eu neillduo fel dosparth o ddynion at waith y weinidogaeth. Wedi gorphen eu haddysg barotoawl, mae y rhai sydd yn awyddu am fywiohaethau yn yr Eglwys Sefydledig yn cael eu llaw-weithio yn ddiaconiaid ac offeiriaid yn y drefn ganlynol:—Mae y diacon, yn unol a'r hyfforddiadau neillduol a geir yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, yn derbyn awdurdod gan yr esgob trwy arddodiad ei ddwylaw i wasanaethu swydd diacon yn Eglwys Dduw, wedi dywedyd o hono yn gyntaf ei fod yn credu ei gynhyrfu oddifewn gan yr Yspryd Glan at hyny o waith. Yr un modd pan y mae un yn cael ei urddo yn offeiriad, mae yr esgob yn rhoddi iddo yr Yspryd Glan, gan ddywedyd, "I bwy bynag y maddeuech di eu pechodau, maddeuir iddynt; ac i bwy bynag yr attaliech di eu pechodau, hwy a attaliwyd." Duw a faddeuo i'r esgobion am ryfygu dywedyd y fath beth. Mewn llawer enghraifft, a barnu oddiwrth yr hyn a welir yn ol llaw, mae yr yspryd aflan yn llawer uwch ei law a llawer mwy nerthol ei ddylanwadau na'r Yspryd Glan yn y seremoniau yma, gan nad beth a broffesir. Mae gan yr Ymneillduwyr hefyd o bob enwad gan mwyaf ryw fath o urddiadau, neu *gyrddau ordeinio*, fel y gelwir hwy yn gyffredin, pa un a ydynt yn rhoddi ac yn derbyn rhyw yspryd ai peidio; ond am danom ni yr Undodiaid, yr ydym yn ymgadw oddiwrth y defodau yma, ac ni ryfygwn siarad mewn dull mor feistrolgar am yr Yspryd Glan a'i waith. Yr oll ydym ni yn wneuthur yw rhoddi yr addysg oreu a fedrwn i'n gwŷr ieuainc sydd â'u gogwydd i'r weinidogaeth; ac wedi myned o honynt trwy y cwrs arferol, y maent yn cael *galwad*, fel ei gelwir, i fod yn weinidogion i wahanol gynnulleidfaoedd. Mae rhai o honynt yn fwy llafurus a llwyddiannus na'u gilydd, fel y gellir yn rhesymol ddysgwyl.

Yn awr, Mr. Golygydd, y mae gweinidogion o'r *quality* yma yn hytrach yn brin yn mhlith Undodiaid Cymru, ac yn argoeli myned yn brinach ; ac hyd nes clo'r drudaniaeth hwn heibio, a gobeithio yr aiff, pa fodd y mae i ni ymdaraw? Mae'r gweinidogion oll yn bresenol yn dynion yn eu gweddeifan, yn pregethu bawb o honynt ddwy waith, a rhai o honynt dair gwaith bob Sul—yn pregethu eu hunain maes o anadl yn mron ; ac os dygwydd weithiau i afiechyd neu ryw anffawd arall i rwystro un neu ragor o honynt i roi eu gwasanaeth arferol, pa fodd mae yn bod? Mae'r pwlpud a'r *platform* yn wag, y bobl yn fud ac yn edrych ar eu gilydd fel pe bae rhyw drychineb ofnadwy wedi cymmeryd lle, ac awdurdodau'r *seat* fawr yn gwelwi ac yn pendrymu. Ceir weithiau efallai gwrdd gweddi. Mae'r bobl yn go yswil, neu ddelffaidd, neu anfedrus, neu, gwaeth na'r cwbl, yn rhy anhyblyg i ymostwng o flaen eu Creawdwr mewn gweddi ; ac felly, nid bob amser y gwelir grân ar y gwasanaeth yr eir trwyddo yn absenoldeb y gweinidog. Rhaid cyfaddef fod yr Undodiaid fel corph yn mhell ar ol yr enwadau creill mewn medr a pharodrwydd i gynnal addoliad pan mae'r gweinidog yn analluog i fod yn bresenol yn y capel. Cofied y darllenydd mai yn erbyn yr Undodiaid fel *corph* yr wyf yn dwyn y cyhuddiad hwn ; mae yn eu plith bersonau sydd yn eithriadau teilwng. Nis gallaf gredu fod llai o dduwiolfrydedd mewn Undodiaeth nâ Thrindodiaeth, gan nad beth yw achos y diffyg hwn.

Gydag ymdrechu gweithio'r cynnulleidfaoedd i dymher fwy defosiynol, yr hyn sydd yn anhebgorol i lwyddiant yr achos, carwn weled neu wybod fod, yn mhob cynnulleidfa, un neu ddau o bersonau a fyddo yn barod, nid yn unig i flaenori yn y cyfarfod gweddi, ond hefyd i bregethu pan fyddo eisieu. Yr wyf yn credu fod yn ein plith amryw leygwyr yn ddigon galluog i wneuthur hyn pe gwelent yn dda i roi eu gwasanaeth. Dylid rhoi pob annogaeth i'r cyfryw. Drwy gael eu cynnorthwy, gallai'r Undodiaid wneuthur llawer mwy o ddaioni nag a wneir ganddynt dan yr amgylchiadau presenol. Nid wyf am dynu i lawr yr hyn a elwir Gweinidogaeth Ddysgedig (*Learned Ministry*) ; nid wyf yn amcanu un sarhad ar yr urdd fendigedig ; goreu i gyd po fwyaf dysgedig fyddo pawb ; ond hyn ddymunwn gael cenad i ddweyd, sef nad yw Lladin, a Groeg, a Hebraeg, a Ffrancaeg, a *Mathematics*, &c., yn bethau ag y mae yn rhaid i'r Efengyl wrthynt—yn bethau ag nas gellir dysgu ffordd iechydwriaeth a bywyd tragywyddol i bechaduriaid hebddynt. Gwyddys am ddynion wedi bod yn llafurus a llwyddiannus iawn fel pregethwyr, heb fawr, os dim gwybodaeth o'r ieithoedd clasurol a mesuroniaeth.

Dymunwn hefyd roi ar ddeall i bawb nad yw *coat* ddu o doriad clerigaidd, cadach gwddf gwyn, dwylaw gwynion, tyner, fel eiddo merch pendefig, *kid gloves* duon, a gwallt gwlyb gan olew, wedi ei gribo a'i frwsio mor llyfn â phen morlo—nad yw'r pethau uchod yn anhebgorion pregethwr da—y gall, weithiau, y sawl fyddo â'i ddwylaw wedi cornio wrth geibio a rhofio, a'i ddillad yn wael ac yn llwm, fod yn bencampwr uwchben ei Feibl yn y pwlpud i annog ei gydgreaduriaid i adael eu ffordd ddrygionus a byw.

Trwy gael cynnorthwy achlysurol lleygwyr teilwng, gallai'r gweinidogion hefyd weithiau ar y Sul fyned i bregethu i fanau dyeithr, tori tir newydd, gwasgar yr had da yn helaethach nag a wneir yn bresenol, a thrwy hyn gario allan gynllun Mr. Jeremy a grybwyllir mewn rhifyn diweddar o'r Ymofynydd. Mae'n rhaid gweithio, a gweithio mewn sel a threfn, cyn y gellir dysgwyl rhyw lawer o gynnydd; ac nis gwn, dan yr amgylchiadau, am un moddion a fyddent yn fwy effeithiol na bod ein *gwyr lleyg*, gwyr heb fod yn y coleg, aelodau o'n cynnulleidfaoedd, yn cynnorthwyo ein gweinidogion trwy roi eu gwasanaeth yn awr ac yn y man yn yr areithfaoedd. Na feddylied ein gweinidogion rheolaidd a pharchus fy mod am eu diswyddo: dal i fyny eu breichiau a'u hattegu yn y cyflawniad o'u dyledswyddau yw'r nôd sydd genyf mewn golwg.

Mae'n dygwydd yn aml hefyd fod hwn neu arall o'n cydaelodau yn cael ei orddiwes gan afiechyd, ac o ganlyniad yn analluog i ddyfod i'r addoliad fel arferol, ac yn parhau yn hir felly, nes y mae yn teimlo chwant cael addoliad a phregeth yn ei dŷ ei hun ar y Sul, a chan ei weinidog ei hun. Mae hyn braidd yn anmhosibl, heb adael heibio'r gwasanaeth yn y capel; ond byddai yn rhwydd ddigon pe gwnai ein lleygwyr gynnorthwyo. O ddiffyg gallu neu amser i gyflawni eu dyledswyddau bugeiliol, y mae ein gweinidogion yn aml yn cael eu beio, ac wedi colli rhai o'u haelodau gwanaf. Y mae yr enwadau ereill yn fwy gofalus ar y pen hwn, ac y mae eu gweinidogion a'u pregethwyr cynnorthwyol yn *wide awake* i chwilio allan y cleifion o bob enwad, ac i ymweled â hwynt. Yspail yn iawn yw dal ambell i *heretic* o Undodwr yn glaf ar ei wely, yn cael ei esgeuluso gan ei weinidog ei hun. Wedi cael ei wanhau gan afiechyd, ychydig o waith sydd i'w ennill trwy weithio ar ei deimladau gweinion, er ar yr un pryd mai pell o fod yn *honourable* yw saethu ysgyfarnog ar ei gwâl. Ni fyddai'r Undodiaid mor bell ar ol, ac yn gymmaint o golledwyr ar y pen hwn, pe byddai i'r aelodau goreu ymgymmeryd â'r gwaith o ymweled â'r cleifion, cynnal cyfarfodydd gweddi, a phregethu yn achlysurol.

Yr wyf yn gobeithio na cha'r llinellau uchod eu gadael yn ddisylw, ond y gwnant symbylu rhyw un arall i gymmeryd i fyny'r un pwnc mewn Ymofynydd dyfodol. Os'nad wyf wedi ysgrifenu yn hollol i'r pwrpas, yr wyf yn sicr y dylid galw ystyriaeth y cynnulleidfaoedd Undodaidd yn Nghymru at rywbeth tebyg ag ydwyf wedi amcanu ato yn y llythyr hwn.

Chwefror 13eg, 1882. Ap Ioan.

Gwasanaethwn Dduw yn ngoleu haul, tra fyddo Duw yn peri i'w haul ddysgleirio. Yna ni a'i gwasanaethwn yn well pan anfono Efe y tywyllwch. Mae yn sicr o ddyfod. Yn unig bydded goleuni Duw yn oleuni i ni, a thywyllwch Duw yn dywyllwch i ni, yna byddwn yn ddyogel gartref pan ddel y noson fawr i gyfarfod â ni.—*F. W. Faber.*

Mae yr hyn a garwn yn dylanwadu mwy i benderfynu ein cymmeriadau nâ'r hyn a wyddom.

Manion a Hanesion.

Arferai rhieni Dr. Darwin a'r teulu fynychu y capel Undodaidd yn Shrewsbury, a bedyddiwyd rhai o'r plant yno. Gan yr offeiriad fo'id bynag y bedyddiwyd Charles Darwin. Bu Charles a rhai o'r plant yn yr ysgol hefyd gyda'r gweinidog Undodaidd.

Mae rhyw beth yn rhyfedd fod darganfyddiadau yn fynych yn cael eu cyssylltu â rhagor nag un enw. Wele ychydig a ant yn gyplau, dichon fod ereill: Darwin a Wallace, Adams a Leverrier, Newton a Leibnitz, Franklin a Richman, Priestley a Lavoisier, Boyle a Marriotte.

Rhywbeth rhyfedd fod prif feirdd a llenorion yr Unol Daleithiau yn Undodaiid: yr haneswyr Motley a Prescott, y beirdd Willis, Holmes, Bryant, Lowell, Longfellow; (Cwacer yw Whittier;) y traethodwyr, Emerson, Irving, Hawthorne.

Da genym ddeall fod ein hen gyfaill, y Parch. H. W. Crosskey, wedi ei raddio yn Ll.D. gan brifysgol Glasgow.

Bu Ralph Waldo Emerson, prif feddyliwr yr Unol Daleithiau, yr hwn a gymharir weithiau â Thomas Carlyle, farw Ebrill 28. Mae gohebydd wedi addaw bywgraffiad erbyn y rhifyn nesaf.

Dywedir fod y Dywysoges Beatrice yn "Bedford Chapel" yn gwrando y Parch. Stopford Brooke, M.A., yn ddiweddar.

Mae y Dr. Freeman Clarke i draddodi y bregeth eleni gerbron y British and Foreign Unitarian Association. Bydd hyny yn cymmeryd lle tua'r adeg y bydd ein darllenwyr yn derbyn yr YMOFYNYDD.

Dalir llawer o ysgadan yn Holland, ond dalir mwy yn Scotland nag un man arall. Yr oedd yn ddiweddar 98,000 o ddynion yn dylyn yr alwedigaeth o bysgotwyr yn Scotland. Yr oedd rhif y badau pysgota yn 1861 yn 12,961, ac yn werth £415,067. O'r pysgodyn a elwir *pilchard* yr ydys wedi gwerthu 12 miliwn mewn un flwyddyn at wasanaeth cartref: fe ddalir o honynt yn Cornwall bob blwyddyn 60 miliwn.

Rhyw bysgodyn rhyfedd yw *shark*. Byddai yn anhawdd meddwl am ddim yn fwy gwancus nag ef; cybydd feallai sydd debycaf iddo. Dywed y Proff. Rymer Jones y gwna'r *shark* lyncu *unrhyw beth* "from a tin can and canvas to fat pork and anchovies." Yn ystymog un a ddaliwyd yn mhorthladd Sydney cafwyd ham, amryw goesau gweddrod, chwarter oi mochyn, pen a choesau blaen bull-dog gyda'r rhaff am ei wddf, wmbredd o gig ceffyl, darn o *sacking* ac offeryn a ddefnyddir i grafu llongau.

Allan o'r pysgodyn a elwir sturgeon y ceir y defnydd a elwir isinglass, a'r stwff rhyfedd hwnw a elwir caviare, sydd mor hoff gan rai ar y cyfandir. Yn Astrakhan y mae y prif law-weithfa, a throir allan oddiyno tua 400,000 pwys bob blwyddyn. Yr ydys wedi cael mewn sturgeon oedd yn 270 pwys filiwn a haner o wyau, sef cymaint ag sydd o drigolion yn Nghymru a Sir Fynwy gyda'u gilydd. Mewn sturgeon arall oedd yn pwyso 2800 pwys, yr oedd y gronell (*spawn*) yn unig yn pwyso 800 pwys.

Dywedir fod gronell (*roe*) yr ysgadenyn yn cynnwys 68,000 o wyau.

Aeth dyn unwaith â darn o frethyn at liwiedydd i'w liwio yn ddu, a chafodd ei foddio gymmaint fel y darfu iddo yn mhen ychydig drachefn fyned â darn o frethyn du ganddo y tro hwn i'w liwio yn wyn. Ond atebodd y lliwiedydd fod darn o frethyn gwyn yn debyg i gymmeriad dyn, y gellid ei liwio yn ddu, ond nad oedd modd ei ddychwelyd i fod yn wyn drachefn.

Os myn dyn gadw ei uniondeb a'i annibyniaeth allan o brofedigaeth, cadwed allan o ddyled. Dywed Franklin, "Gwaith caled yw gosod cwdyn gwag i sefyll yn syth.

Un tro aeth morwyn mewn dychryn mawr i mewn i ystafell ei meistr yr hwn oedd mewn myfyrdod dwfn, a dywedodd wrtho fod y tŷ ar dân. "Wel," ebe yntau, "dywedwch wrth fy ngwraig, nid wyf fi byth yn ymyraeth â materion teuluaidd."

Mae yr erlid yn para ar y "*Salvation Army*." Dywedir mai tafarnwyr a Thoriaid eglwysig sydd fwyaf wrth wraidd y fusnes.

Yr oedd Dr. Orville Dewey yr hwn a fu farw yn ddiweddar yn 88 oed. Ganwyd ef Mawrth 28, 1794. Yr oedd efe a'r bardd Bryant yn y coleg gyda'u gilydd. Y mae ei bregethau gyda'r mwyaf gwerthfawr sydd genym. Carem gyhoeddi un neu ddwy heb fod yn faith.

Ysgolfeistr cyntaf Darwin oedd y Parch. George Case, gweinidog yr Undodiaid yn Shrewsbury.

Annghymmedrolder, mae yn gyru'r synwyr allan o'r pen, iechyd allan o'r corff, arian allan o'r boced, y penelinian allan o'r got, a daioni allan o'r galon.

Aeth dyn yn ddiweddar at offeiriad Pabaidd, a cheisiodd ganddo gyflawnu pedair offeren (*mass*) dros ei dad, yr hwn oedd wedi marw yn yr India. Y *charge* oedd dwy bunt. Rhoddodd y dyn *fil* deg punt a chafodd wyth punt yn newid, yr offeiriad yn dywedyd ei fod yn fab da. Pan ddygwyd y *bill* i'r banc, cafwyd allan mai un drwg oedd, a digon tebyg i'r offeiriad newid ei farn am gymmeriad y dyn. A ddylai y tad dan yr amgylchiadau gael *benefit* yr offerenau os oes *benefit* yn bod?

Mae yn hyfryd marw os oes Duw; ac yn drist marw os nad oes.—*Mark Antony.*

Mae Charles Dickens yn cario gwaith Carlyle yn mlaen yn fwy sicr nâ neb; yn gorfodi cydymdeimlad pawb i lwybrau anarferol, ac yn dysgu i ni fod dynion Pwns a Judy, plant cardotæwl, a hen ddynion hanner call hefyd o'n rhywogaeth ein hunain, ac nad ydynt yn fwy nâ ni ein hunain wedi eu symmud allan o gylch yr arwraidd. Mae efe yn gwneuthur byd o dda mewn ffordd iachus iawn.—*Caroline Fox.*

Marwgofion.

Ebrill 6, yn chwe' mis oed, yn ddisymwth iawn, John Oliver, mab y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, er galar mawr i'w dad a'i fam.

Ebrill 22, yn 70 oed, bu farw Evan Williams, Waungron, garddwr T. H. R. Hughes, Yswain, Neuaddfawr, ger Llanbedr. Claddwyd ef y dydd Mercher canlynol yn Capelygroes, a gweinyddodd y Parch. T. T. ar yr achlysur. Yr oedd yr ymadawedig yn dad i 13 o blant o'r un fam, o ba rai nid oes ond 8 yn fyw yn bresenol. Yr oedd wedi bod mewn rhyw wasanaeth neu gilydd yn y Neuadd am oddeutu 43 o flynyddoedd, oddiar amser yr hen Mr. Jones y *Bonesetter* enwog hyd yn bresenol, yr hyn sydd brawf o'i deilyngdod a'i ffyddlondeb.

Mai 4, yn sydyn ac annysgwyliadwy, John Crane, Rhymney, yn 70 oed. Aeth i'w waith fel arfer tua hanner awr wedi pump yn yr hwyr heb feddwl fawr fod ei amser mor agos i ben. Aeth i fan lle'r oedd sulphur ac fe'i cafwyd cyn pen hanner awr wedi mogi. Mae wedi gadael gweddw a chwech o blant i alaru ar ei ol—y plant oll wedi tyfu i fyny ac yn gwneuthur drostynt eu hunain. Dygai yr hen frawd fawr sel dros Undodiaeth, ac yr oedd bob amser yn barod i'w chynnorthwyo yn ol ei allu. Genedigol oedd o ardal Abermeurig. Claddwyd yn mynwent Eglwys Rhymney.

D. Enoch.

Mai 5, yn 64 oed, bu farw Evan Jones, Saer, Pantycreuddyn, Llandyssul. Y dydd Llun canlynol claddwyd ef yn mynwent Pantdefaid, a phregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur. Yr oedd y trancedig wedi bod yn nychu am amser maith, ac o'r diwedd daeth ei amser terfynedig oddiamgylch.

Mai 5, bu farw Thomas Evans, Saermaen, Crossroad, Sychbant, Llanwenog, yn 71 oed. Hebryngwyd ef i'r tŷ rhagderfynedig yn Pantdefaid y dydd Mawrth canlynol. Pregethodd T. T. yn y tŷ annedd. Yr oedd yr ymadawedig yn briod â nith i'r diweddar Barch. John James, Gellionen. Bu yn dihoeni am fisoedd yn ei wely, ond nid yn boenus iawn, cyn iddo gael ei ryddhau.

Mai 15, yn 55 oed, Mary, gwraig Samuel Lloyd, Cwmerwydd, ger Llandyssul. Cafodd gystudd hir, ac ymollyngodd i freichiau marwolaeth yn dawel ac ymostyngol. Yr oedd yn aelod o Eglwys Llwynrhydowen, a bu byw yn deilwng o i phroffes. Claddwyd y dydd Iau canlynol yn y fynwent newydd—y Parch. W. James yn gweinyddu.

Mai 22, yn 13 oed, Jenkin, mab David a Hannah Thomas, Fadfa, ger Llandyssul. Yr oedd yn yr Ysgol yn Clifton pan y cymmerwyd ef yn sal. Dadblygodd ei glefyd mor gyflym fel mai y newydd cyntaf braidd a gyrhaeddodd adref oedd ei fod wedi marw. Dangoswyd cydymdeimlad cyffredinol â'r teulu yn eu dygn brofedigaeth. Yr oedd ein cyfaill ieuanc yn fachgen addawol iawn, yn aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul yn Bwlchyfadfa, ac yn un a gerid yn fawr gan ei gyfoedion yn y gymmydogaeth. Dygwyd ei weddillion marwol o Bryste dydd Mercher, a chladdwyd dranoeth yn Bwlchyfadfa pryd y gweinyddodd y Parch. W. James, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parchn. Thos. Thomas a John Davies.

Barddoniaeth.

Y LLOER.

Un fireiniaf eirianwedd—yw'r lloer,
Llawn o harddwch rhyfedd ;
Ar ael y nen mewn siriol wedd,—gorsedda,
Yn llon y gwena'n llawn o ogonedd.

Ar ol yr haul, i'r golwg,—hi a ddaw,
Dduwies y tywyllwg :
Yr hirnos ddu-nos a ddwg—ini'n glir,—
Hylon deimlir ei dylanwad amlwg.

Llusern y gwyll serenog yw,—rhydd lan,
Hardd oleuni trylyw :
Hudol forwyn ydyw,—Ior ei hunan,
Lleda gyfran o'i allu digyfryw.

D. Ifor Davies (*Dyffrynfardd*).

CYFANSODDWYD

A ganlyn wrth glywed fy nhadcu yn hiraethu am ddydd ei ymddattodiad, pan yn bedwar ugain a deg mlwydd oed.

Disgwyl wyf y mawr ddiwrnod
Pan caf orphen hyn o daith ;
Mae'r hen babell bridd yn darfod
Er ys llawer blwyddyn faith.

O hoel i hoel, yn cael ei dattod,
Bob diwrnod yn ddiball ;
Pan gilia'r dydd dan leni'r cysgod
Ni fwriadaf wel'd y llall.

Fel blodeuyn 'rwyf yn gwywo—
Gwylio'r ydwyf ar bob awr
Am y genad i ffarwelio
A hen wlad y cystudd mawr.

Fy 'chydig nerth sydd boen a blinder,
O dan bwys a gwres yr hin ;
Dwg fi adref Duw ar fyrder
I'th gynteddau di dy hun.

Y mae ffrydiau'r hen Iorddonen
Megys clychau yn fy nghlyw ;
Fy nhaith orthrymus bron a'i gorphen,
Finau wedi blino byw.

Mae fy enaid yn hiraethu
Am wlad o dragwyddol hoen ;—
Nefol wlad—lle nad oes ynddi
Henaint, llesgedd, cur na phoen.

Pentregwenlais. Mary Edwin Rees.

Y MODD Y TAENIR ATHROD.

(Adroddiad i'r Plant. Adrodder yn isel fel wrth adrodd Cwnsel.)

Medd Merch Tan-y-Graig
Wrth Mari fy ngwraig,
Yn ei chlust megys cwnsel y d'wedodd hi e',

"Ymddengys i mi
Fod Gweno Ty-Fry
Yn cym'ryd gormod o—*rywbeth*— yn gymmysg â'i the !"

A chlywyd cyn nos,
Hen Weno Tir-rhos,
Yn adrodd 'r un 'stori wrth Marged y *Bell ;*
A'i phen tua'r llawr,
Mewn blinder yn fawr,
" Ond 'r oedd Gweno Ty-fry yn cym'ryd—
fel na'r fel !

Aeth Marged i ffwrdd
At Miss Jones, Llwyn-yr-hwrdd,
A d'wedodd y stori wrth hono'n siwr siwr ;
"*It was sad to think*"
Ac yna'r oedd *wink*
Ond 'roedd Gweno yn yfed y breci—*fel dwr !*

A Miss Jones fel ffrynd,
'Roedd yn rhaid iddi fyn'd
I ddweyd wrth Miss James—dyma'r rheol—
Fod Gweno Ty-fry,
Am hanner awr wedi tri
Mor feddw â chaib—*ar ben yr heol !*

A Miss James, Nantcoi,
'Roedd yn arfer rhoi
Weithiau waith gwnio i Gweno Ty-fry ;
A phan glywodd hi hyn,
Hi dd'wedodd yn syn,
" Chaiff Gweno ddim gwaith byth mwy genyf fi."

A Gweno Ty-fry
'N eithaf iawn dybiaf fi,
A dd'wedodd, hi dd'wedodd, ie hyn dd'wedodd hi.
" Mi fynaf wel'd pwy
Ydynt hwy, ydynt hwy,
A fu mor garedig â'm paentio mor ddu."

At Miss James aeth i ffwrdd,
A Miss Jones, Llwyn-yr-hwrdd,
Ar lleill oll nes dyfod at ferch Tan-y-Graig;
A gofynodd pa ham
Y gwnaeth hono'r fath gam,
A phardduo'i chymmeriad wrth Mari fy ngwraig.

A hono yn rhywfodd,
Mewn blinder tost dd'wedodd,
Ni dd'wedais i 'rioed y fath beth, fel rwy' byw ;
Ond hyn dd'wedais wrthi
Fod Gweno'n tewychu
Ar ormod o—*suwgir*—a hyny GWIR YW !

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau :—E.T., Fadfa; J.W., Llanwnen; E.D.H., Pentyrch; D.P., St. Clears; J.R.T., Llangeitho; S.E., Llanfyrnach; Mrs. W., London; W.J., Cwmbach; D.E., Cwmdu; J.D., Glyn Neath; Mrs. R., Penderyn; J.J., Llandyssul; D.T., Lerpwl; Rev. J.B.Ll.; T.Ll., Porthcawl; D.R., Risca; J.L., Dowlais; W. H., Cefncoed; J.J., Cellan; M.T., Llangorse Villa; W.G., Pontyberem; T. J., Tanffynnon; R. J., Rhydyparc.

Dalier Sylw :—Byddai yn gyfleusdra mawr i ni, pe tynid pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Sylwer yn mhellach fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach hefyd, ac fe ddylid eu defnyddio bob amser yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau :—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Ivy Cottage,
ABERDARE.

Y CWRDD BLYNYDDOL.

Bydd Cyfarfod Blynyddol Undodaidd Deheubarth Cymru i gael ei gynnal eleni yn Pantdefaid ar yr 22ain o'r mis hwn (Mehefin). Y pregethwr fydd y Parch. R. J. Jones, A.C., Aberdar. Pwnc y *Conference* ar ol y bregeth, agored i bawb, fydd yr "Ysgol Sabbothol, a'r moddion goreu i'w gwneuthur yn fwy llwyddiannus." Agorir y Gynnadledd trwy ddarllen papyr ar y pwnc gan y Parch. J. H. Davies, Cefncoed. Bydd dwy bregeth y nawn o'r blaen. Y cyfarfod i ddechreu am 6.30. Gofalir *y tro hwn* anfon cerbydau yn erbyn y gweinidogion ac ereill i'r Porth Hotel, Llandyssul, i ateb amser y *Train* 3 o Gaerfyrddin. Gobeithir y gwna'r gweinidogion ymdrechu bod *oll* yn bresenol ac yn brydlawn. Os na wna'r blaenoriaid ddangos ffyddlondeb, pwy all feio'r *bobl?*—T.T.

LLYFR CYNTAF I BLANT YR YSGOL SUL

(Ail Argraffiad),

Gan y diweddar Barch. JOHN JONES, ABERDAR.

Pris—Dwy Geiniog.

Gwerthir 100 ac uchod, yn ol 12 swllt y cant; a dwsin am 1s. 6c.

YN AWR YN BAROD, PRIS SWLLT,

LLAWLYFR YR UNDODWR:

GAN

ROBERT SPEARS, LLUNDAIN,

Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, trwy ganiatad yr Awdwr, gan

DAVID EVANS.

Dylasai y llyfr cynnwysfawr hwn fod yn llaw pob ymchwiliwr am y gwirionedd. Gellir cael unrhyw nifer o hono ond anfon at *David Evans, Bodawel, Llanwnen, Carmarthen.*

D.S.—Yr elw arferol i Lyfrwerthwyr ac ereill yn cymmeryd dwsin ac uchod.